



## RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

### Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Social Services and Well-being (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â \* ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu.  
Amendments marked \* are new or have been altered.

Mae'r testun mewn italig wedi'i ddarparu gan y sawl a gynigiodd y gwelliant perthnasol i  
esbonio ei ddiben ac i gynorthwyo'r darllenydd. Nid yw'r testun yn rhan o eiriad y  
gwelliant.

The text in italics has been provided by the proposer of the relevant amendment to explain  
its purpose and to aid the reader's understanding. The text does not form part of the  
amendment.

---

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn—  
The Bill will be considered in the following order—

Sections 2 to 69	Adrannau 2 i 69
Schedule 1	Atodlen 1
Sections 70 to 119	Adrannau 70 i 119
Schedule 2	Atodlen 2
Sections 120 to 160	Adrannau 120 i 160
Schedule 3	Atodlen 3
Sections 161 to 169	Adrannau 161 i 169
Section 1	Adran 1
Long title	Teitl hir

---

**William Graham**

**56A**

As an amendment to amendment 56, after line 34, insert—

- ‘( ) decisions made under this Act should promote and respect the dignity of a person in need of care and support, or of a carer in need of support.’.

*To include the promotion and respect of the dignity of a person as one of the statutory principles of the Bill.*

Fel gwelliant i welliant 56, ar ôl llinell 36, mewnosoder—

- ‘( ) dylai’r penderfyniadau a wneir o dan y Ddeddf hon hyrwyddo a pharchu urddas person y mae angen gofal a chymorth arno, neu ofalwr y mae angen cymorth arno.’.

*I gynnwys hyrwyddo a pharchu urddas person fel un o egwyddorion statudol y Bil.*

**Kirsty Williams**

**56**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: William Graham**

To insert a new section—

**‘( ) Statutory principles**

- (1) In making decisions under this Act the principles in subsection (2) apply.
- (2) The principles are—
  - (a) the welfare of any child in need of care and support shall be the paramount consideration, as stated in the welfare principle in section 1 of the Children Act 1989;
  - (b) in the case of an adult, anything done under this Act must seek to maximise their independence and autonomy;
  - (c) decisions made under this Act should promote the dignity, safety and well-being of a person in need of care and support, or of a carer in need of support;
  - (d) a person must be involved so far as is practicable in any decision made in relation to their care assessments, the planning, developing and the reviewing of their care and support, or relating to the support provided in their role as carers, as is appropriate having regard to their level of understanding and willingness to participate, and in addition in the case of a child as is compatible with the welfare principle;
  - (e) where a person’s ability to communicate is impaired through disability, age or otherwise, appropriate support should be provided to enable them to participate in decisions that affect them to an extent as is appropriate in the circumstances and in the case of a child compatible with the welfare principle;
  - (f) the wishes of any person must be respected and followed wherever practicable, safe and appropriate, and in the case of a child compatible with their level of understanding and the welfare principle;
  - (g) people have the right to make decisions that to others may appear irrational, unwise or eccentric unless in the case of a child they do not have the necessary level of understanding to make such decisions, or such decisions are incompatible

with the welfare principle;

- (h) it must be presumed that a person is the best judge of their own well-being, except in cases where they lack the necessary legal capacity to make that assessment or in addition in the case of a child, they do not have the necessary level of understanding to make that assessment;
  - (i) the least restrictive intervention should be adopted when it is necessary to interfere with a person's human rights, in particular but not exclusively their right to family life, private life and home.
- (3) With the exception of the welfare principle in subsection 2(a) which in all cases involving children will be the paramount consideration, the above principles are not listed in order of priority nor do they necessarily have equal weight.'

*This amendment would include statutory principles on the face of the Bill. In line with recommendation 1 of the Health Committee Stage 1 report.*

I fewnosod adran newydd –

**'( ) Egwyddorion statudol**

- (1) Wrth wneud penderfyniadau o dan y Ddeddf hon, mae'r egwyddorion yn is-adran (2) yn gymwys.
- (2) Yr egwyddorion yw:
  - (a) llesiant unrhyw blentyn y mae arno angen gofal neu gymorth yw'r brif ystyriaeth, fel y nodir yn yr egwyddor llesiant yn adran 1 o Ddeddf Plant 1989;
  - (b) yn achos oedolyn, rhaid i unrhyw beth a wneir o dan y Ddeddf hon geisio cynyddu'i annibyniaeth a'i ymreolaeth i'r eithaf;
  - (c) dylai penderfyniadau a wneir o dan y Ddeddf hon hyrwyddo urddas diogelwch a llesiant person y mae arno angen gofal a chymorth, neu urddas, diogelwch a llesiant gofalwr y mae arno angen cymorth;
  - (d) i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, rhaid i berson fod yn rhan o unrhyw benderfyniad a wneir mewn perthynas â'i asesiadau gofal, y gwaith o gynllunio, datblygu ac adolygu'i ofal a'i gymorth, neu mewn perthynas â'r cymorth sy'n cael ei ddarparu iddo yn ei rôl fel gofalwr, fel sy'n briodol o ystyried ei lefel o ddealltwriaeth a'i barodrwydd i gymryd rhan, ac yn ychwanegol, yn achos plentyn, fel sy'n gydnaws â'r egwyddor llesiant;
  - (e) pan fo anabledd, oed neu rywbeth arall yn amharu ar allu person i gyfathrebu, dylid darparu cymorth priodol i'w alluogi i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno i'r graddau sy'n briodol o dan yr amgylchiadau ac, yn achos plentyn, fel sy'n gydnaws â'r egwyddor llesiant;
  - (f) rhaid parchu dymuniadau unrhyw berson a'u dilyn ym mha le bynnag y mae hynny'n ymarferol, yn ddiogel ac yn briodol ac, yn achos plentyn, yn gydnaws â'i lefel o ddealltwriaeth a'r egwyddor llesiant;
  - (g) mae gan bobl yr hawl i wneud penderfyniadau a allai ymddangos i eraill yn afresymol, yn annoeth neu'n ecentrig oni bai, yn achos plentyn, nad oes ganddo'r lefel angenrheidiol o ddealltwriaeth i wneud penderfyniadau o'r fath, neu fod

penderfyniadau o'r fath yn anghydnaws â'r egwyddor llesiant;

- (h) rhaid rhagdybio mai'r unigolyn yw'r person mwyaf cymwys i wneud penderfyniadau ynglŷn â'i lesiant ei hun, ac eithrio mewn achosion pan nad oes ganddo'r cymhwyster cyfreithiol angenrheidiol i wneud yr asesiad hwnnw neu, yn ychwanegol yn achos plentyn, nad oes ganddo'r lefel angenrheidiol o ddealltwriaeth i wneud yr asesiad hwnnw;
- (i) dylid mabwysiadu'r ymyriad sy'n cyfyngu leiaf ar yr unigolyn pan fydd yn angenrheidiol ymyrryd â hawliau dynol person, yn arbennig, ond nid yn unig, ei hawl i fywyd teuluol, bywyd preifat a chartref.

- (3) Ar wahân i'r egwyddor llesiant yn is-adran 2(a), sef y brif ystyriaeth ym mhob achos sy'n ymwneud â phlant, nid yw'r egwyddorion uchod wedi'u rhestru mewn trefn blaenoriaeth ac ni roddir yr un pwyslais arnynt o reidrwydd ychwaith.'.

*Byddai'r gwelliant hwn yn rhoi egwyddorion statudol ar wyneb y Bil, yn unol ag argymhelliad 1 o adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Iechyd.*

## **William Graham**

**111**

Section 2, page 4, line 26, leave out subsections (2) to (4) and insert –

- '( ) In deciding on the well-being of any individual, regard must be had to the individual's –
  - (a) cultural and personal values;
  - (b) health and welfare;
  - (c) right to contribute to and participate in society to the extent that they wish to do so;
  - (d) safety and protection;
  - (e) social, family and personal relationships;
  - (f) standard of living;
  - (g) need to have their rights secured;
  - (h) living accommodation;
  - (i) right to live independently to the extent that the individual wishes to do so.
- ( ) The Welsh Ministers may, by order, amend sub-section (*first subsection to be inserted by amendment 111*) by adding to the list.
- ( ) In relation to a child, regard must also be had to –
  - (a) the physical, intellectual, emotional, social and behavioural development of the child;
  - (b) "welfare" as that word is interpreted for the purposes of the Children Act 1989.'.

*Replaces the current definition of "well-being" with a list of factors to which persons exercising functions under the Bill must have regard. Provides Welsh Ministers with the power to add to the list of factors which must be regarded.*

Adran 2, tudalen 4, llinell 27, hepgorer is-adrannau (2) hyd at (4) a mewnosoder –

- ( ) Wrth benderfynu ar lesiant unrhyw unigolyn, rhaid rhoi sylw i’w –
- (a) gwerthoedd diwylliannol a phersonol;
  - (b) iechyd a llesiant;
  - (c) hawl i gyfrannu at gymdeithas a chymryd rhan ynddo i’r graddau y mae’n dymuno gwneud hynny;
  - (d) diogelwch ac amddiffyniad;
  - (e) perthnasoedd cymdeithasol, teuluol a phersonol;
  - (f) safon byw;
  - (g) angen i gael ei hawliau wedi’u diogelu;
  - (h) llety preswyl;
  - (i) hawl i fyw’n annibynnol i’r graddau y mae’n dymuno gwneud hynny.
- ( ) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio is-adran (*yr is-adran cyntaf sy’n cael ei fewnosod gan welliant 111*) drwy ychwanegu at y rhestr.
- ( ) Mewn perthynas â phlentyn, rhaid rhoi sylw hefyd i –
- (a) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol y plentyn;
  - (b) “llesiant” fel y dadansoddir y gair hwnnw at ddibenion Deddf Plant 1989.’.

*Mae’n disodli’r diffiniad presennol o “lesiant” ac yn ei le yn cynnwys rhestr o ffactorau y mae’n rhaid i bersonau sy’n arfer y swyddogaethau o dan y Bil roi sylw iddynt. Mae’n rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu at y rhestr o ffactorau y mae’n rhaid rhoi sylw iddynt.*

**William Graham**

71

Section 2, page 4, after line 34, insert –

- ‘(h) suitability of living accommodation.’.

Adran 2, tudalen 4, ar ôl llinell 35, mewnosoder –

- ‘(h) addasrwydd llety preswyl.’.

**William Graham**

72

Section 2, page 5, after line 4, insert –

- ‘(c) independent living.’.

Adran 2, tudalen 5, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

- ‘(c) byw’n annibynnol.’.

**William Graham**

64

Section 4, page 5, line 27, leave out ‘seek to’.

Adran 4, tudalen 5, llinell 29, hepgorer ‘geisio’.

**Gwenda Thomas**

**417**

Section 4, page 5, after line 29, insert—

- ( ) A person exercising functions under this Act in relation to—
- (a) an individual who has, or may have, needs for care and support, or
  - (b) a carer who has, or may have, needs for support,
- must comply with the duties in subsection (*second subsection to be inserted by amendment 417*).
- ( ) The person must—
- (a) in so far as is reasonably practicable, ascertain and have regard to the individual's views, wishes and feelings,
  - (b) have regard to the importance of promoting and respecting the dignity of the individual,
  - (c) have regard to the characteristics, culture and beliefs of the individual (including, for example, language), and
  - (d) have regard to the importance of providing appropriate support to enable the individual to participate in decisions that affect him or her to the extent that is appropriate in the circumstances, particularly where the individual's ability to communicate is impaired through age, disability or otherwise.'

Adran 4, tudalen 5, ar ôl llinell 32, mewnosoder—

- ( ) Rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon—
- (a) mewn perthynas ag unigolyn y mae arno anghenion am ofal a chymorth, neu y gall fod arno anghenion am ofal a chymorth, neu
  - (b) mewn perthynas â gofalwr y mae arno anghenion am gymorth, neu y gall fod arno anghenion am gymorth,
- gydymffurfio â'r dyletswyddau yn is-adran (*yr ail is-adran sy'n cael ei fewnosod gal welliant 417*).
- ( ) Rhaid i'r person—
- (a) i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, ganfod barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn a rhoi sylw i'r farn honno, y dymuniadau hynny a'r teimladau hynny,
  - (b) rhoi sylw i bwysigrwydd hyrwyddo a pharchu urddas yr unigolyn,
  - (c) rhoi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys, er enghraifft, iaith), a
  - (d) rhoi sylw i bwysigrwydd darparu cymorth priodol er mwyn galluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arno i'r graddau sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, yn enwedig pan fo nam ar allu'r unigolyn i gyfathrebu oherwydd oedran, anabled neu fel arall.'

**Gwenda Thomas** 418

Section 4, page 5, line 30, leave out subsection (2).

Adran 4, tudalen 5, llinell 33, hepgorer is-adran (2).

**William Graham** 65

Section 4, page 5, line 30, after 'must', insert 'ascertain and'.

*Requires a person exercising duties under the Act to ascertain the individual's views and wishes, in addition to having regard to them.*

Adran 4, tudalen 5, llinell 34, hepgorer 'roi sylw i farn yr unigolyn, ei ddymuniadau a'i deimladau' a mewnosoder 'ganfod beth yw barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn a rhoi sylw iddynt,'.

*Mae'n ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n arfer y dyletswyddau o dan y Ddeddf ganfod barn a dymuniadau'r unigolyn, yn ogystal â rhoi sylw iddynt.*

**Gwenda Thomas** 419

Section 4, page 6, line 1, leave out 'must' and insert 'falling within subsection (first subsection to be inserted by amendment 417)(a) or (b) must, in addition,'.

Adran 4, tudalen 6, llinell 2, ar ôl 'oedolyn' yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos, mewnosoder 'sy'n dod o fewn is-adran (yr ail is-adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 417)(a) neu (b), yn ogystal,'.

**William Graham** 66

Section 4, page 6, line 2, leave out 'assumption' and insert 'presumption'.

Adran 4, tudalen 6, llinell 2, hepgorer 'dybiaeth' a mewnosoder 'ragdybiaeth'.

**Gwenda Thomas** 420

Section 4, page 6, line 3, after 'well-being', insert –

' and

( ) the importance of promoting the adult's independence where possible'.

Adran 4, tudalen 6, llinell 3, ar ôl 'oedolyn', mewnosoder –

' ac

( ) pwysigrwydd hyrwyddo annibyniaeth yr oedolyn pan fo'n bosibl'.

**Gwenda Thomas** 421

Section 4, page 6, line 4, leave out –

'must have regard –

(a) to the importance of promoting the upbringing of the child by the child's family, in so far as doing so is consistent with promoting the well-being of the child, and

(b) where the child is under the age of 16,'

And insert—

'falling within subsection (*first subsection to be inserted by amendment 417*)(a) or (b), in addition—

- ( ) must have regard to the importance of promoting the upbringing of the child by the child's family, in so far as doing so is consistent with promoting the well-being of the child, and
- ( ) where the child is under the age of 16, must ascertain and have regard'.

Adran 4, tudalen 6, llinell 5, hepgorer—

'roi sylw—

- (a) i bwysigrwydd hyrwyddo magwraeth y plentyn gan deulu'r plentyn, i'r graddau y mae gwneud hynny'n gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn, a
- (b) pan fo'r plentyn o dan 16 oed, i farn, dymuniadau a theimladau y personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn'

A mewnosoder—

'sy'n dod o fewn is-adran (*yr ail is-adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 417*)(a) neu (b), yn ogystal—

- ( ) rhoi sylw i bwysigrwydd hyrwyddo magwraeth y plentyn gan deulu'r plentyn, i'r graddau y mae gwneud hynny yn gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn, ac
- ( ) pan fo'r plentyn o dan 16 oed, ganfod barn, dymuniadau a theimladau'r personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn a rhoi sylw i'r farn honno, y dymuniadau hynny a'r teimladau hynny'.

**Kirsty Williams**

57

**Gyda chefnogaeth / Supported by: William Graham**

Section 4, page 6, after line 12, insert—

'(6) Any reference to care and support in this Act is to be construed as a reference to—

- (a) care;
- (b) support;
- (c) both care and support.'

*Care and support are different elements; this amendment will ensure that those differences are recognised in the legislation.*

Adran 4, tudalen 6, ar ôl llinell 13, mewnosoder—

'(6) Mae unrhyw gyfeiriad at ofal a chymorth yn y Ddeddf i'w ddehongli fel cyfeiriad at—

- (a) gofal;
- (b) cymorth;
- (c) gofal a chymorth.'

*Mae gofal a chymorth yn elfennau gwahanol; bydd y gwelliant hwn yn sicrhau bod y gwelliannau hynny yn cael eu cydnabod yn y ddeddfwriaeth.*



**William Graham**

180

Section 4, page 6, after line 12, insert –

- '(6) The Welsh Ministers may give guidance to a person exercising functions under this Act about any action to promote well-being under subsection (1).
- (7) In exercising functions under this Act, a person must have regard to any guidance issued under subsection (*first subsection to be inserted by amendment 180*).'

Adran 4, tudalen 6, ar ôl llinell 13, mewnosoder –

- '(6) Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon ynghylch unrhyw gamau i hyrwyddo llesiant o dan is-adran (1).
- (7) Wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, rhaid i berson roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan is-adran (*yr is-adran cyntaf sy'n cael ei fewnosod gan welliant 180*).'

**Gwenda Thomas**

422

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version  
Adran 5, tudalen 6, llinell 17, hepgorer 'yna bobl' a mewnosoder 'pobl'.

**William Graham**

67

Section 5, page 6, line 26, after '(1)', insert 'must provide for how services should be designed and delivered to promote and enable independent living and'.

*Adds a requirement that regulations made under section 5(1) must provide for how preventative services should promote and enable independent living.*

Adran 5, tudalen 6, llinell 29, hepgorer 'Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)' a mewnosoder 'Rhaid i reoliadau o dan is-adran (1) ddarparu ar gyfer sut y dylid dylunio a darparu gwasanaethau i alluogi pobl i fyw'n annibynnol ac i hyrwyddo hynny, a chânt'.

*Mae'n ychwanegu gofyniad bod yn rhaid i reoliadau a wneir o dan adran 5(1) ddarparu ar gyfer sut y dylai gwasanaethau ataliol hyrwyddo a galluogi byw'n annibynnol.*

**Kirsty Williams**

100

Section 5, page 6, after line 27, insert –

- '() Regulations made under this section shall clarify that visits to deliver personal care in an adult's home should not normally be commissioned to last less than thirty minutes, excluding travel time.'

Adran 5, tudalen 6, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

- '() Bydd rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn egluro na ddylai ymweliadau i ddarparu gofal personol mewn cartref oedolyn fel arfer gael eu comisiynu i bara llai na 30 munud, heb gynnwys amser teithio.'

**Elin Jones**

472

Section 6, page 7, after line 8, insert—

‘() A Local Health Board must provide or arrange for the provision of a range and level of services which it considers will achieve or contribute to the achievement of the purposes in subsection (2) in its area.’

*An amendment to place duties on Local Health Boards to contribute towards the provision of preventative services.*

Adran 6, tudalen 7, ar ôl llinell 7, mewnosoder—

‘() Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol ddarparu neu drefnu i ddarparu ystod a lefel o wasanaethau a fydd yn ei farn ef yn sicrhau’r dibenion neu’n cyfrannu at sicrhau’r dibenion yn is-adran (2) yn ei ardal.’

*Gwelliant i osod dyletswyddau ar Fyrddau Iechyd Lleol i gyfrannu at ddarparu gwasanaethau ataliol.*

**Gwenda Thomas**

84A

As an amendment to amendment 84, line 1, leave out ‘to enable or reable a person to live their life’ and insert ‘enabling people to live their lives’.

Fel gwelliant i welliant 84, llinell 1, hepgorer ‘i alluogi neu ailalluogi person i fyw ei fywyd’ a mewnosoder ‘galluogi pobl i fyw eu bywydau’.

**William Graham**

84

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: Lindsay Whittle**

Section 6, page 7, after line 25, insert—

‘(i) to enable or reable a person to live their life as independently as possible.’

Adran 6, tudalen 7, ar ôl llinell 24, mewnosoder—

‘(i) i alluogi neu ailalluogi person i fyw ei fywyd mewn ffordd mor annibynnol â phosibl.’

**Gwenda Thomas**

423

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 6, tudalen 7, llinell 25, hepgorer ‘caniateir’ a mewnosoder ‘gellir’.

**Elin Jones**

473

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: William Graham**

Section 6, page 7, line 31, leave out subsection (5).

*An amendment to place duties on Local Health Boards to contribute towards the provision of preventative services.*

Adran 6, tudalen 7, llinell 31, hepgorer is-adran (5).

*Gwelliant i osod dyletswyddau ar Fyrddau Iechyd Lleol i gyfrannu at ddarparu gwasanaethau ataliol.*

**William Graham**

68

Section 6, page 8, line 1, leave out –

‘and in particular avoid provision which might give rise to disproportionate expenditure.

- (7) Provision is not to be considered as giving rise to disproportionate expenditure only because that provision is more expensive than comparable provision’.

Adran 6, tudalen 8, llinell 1, hepgorer –

‘ac yn benodol osgoi darpariaeth a allai beri gwariant anghymesur.

- (7) Nid yw darpariaeth i’w hystyried yn un sy’n peri gwariant anghymesur ond oherwydd bod y ddarpariaeth honno’n ddrutach na darpariaeth gyffelyb’.

**William Graham**

85

Section 6, page 8, after line 2, insert –

‘(d) must provide or secure the provision of a service for providing people with information and advice about the services and resources referred to in paragraphs (a) to (c).’.

Adran 6, tudalen 8, ar ôl llinell 2, mewnosoder –

‘(d) rhaid i awdurdod lleol ddarparu gwasanaeth sy’n rhoi gwybodaeth a chynghor i bobl am y gwasanaethau ac adnoddau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a) i (c), neu sicrhau y darperir y gwasanaeth hwn.’.

**William Graham**

86

Section 6, page 8, after line 10, insert –

‘( ) In discharging their duties under subsections (4) and (5) a local authority and a Local Health Board must have regard to the need for mutual co-operation.’.

Adran 6, tudalen 8, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

‘( ) Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan is-adrannau (4) a (5), rhaid i awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol roi sylw i’r angen iddynt gydweithredu.’.

**William Graham**

252

Section 7, page 8, line 16, after ‘promote’, insert –

‘the efficient and effective operation of a market in services for meeting care and support needs with a view to ensuring that any person in its area wishing to access services in the market –

- (a) has a variety of providers to choose from who (taken together) provide a variety of services;
- (b) has a variety of high quality services to choose from;
- (c) has sufficient information to make an informed decision about how to meet the needs in question.

- ( ) The actions to be taken by a local authority under subsection (1) include, but are not limited to’.

Adran 7, tudalen 8, llinell 18, ar ôl ‘hyrwyddo’, mewnosoder –

‘gweithrediad effeithlon ac effeithiol marchnad mewn gwasanaethau ar gyfer bodloni anghenion gofal a chymorth gyda golwg ar sicrhau bod gan unrhyw berson yn ei ardal sy’n dymuno cael mynediad at wasanaethau yn y farchnad –

- (a) amrywiaeth o ddarparwyr i ddewis o’u plith sydd (gyda’i gilydd) yn darparu amrywiaeth o wasanaethau;
- (b) amrywiaeth o wasanaethau o ansawdd uchel i ddewis o’u plith;
- (c) gwybodaeth ddigonol i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch sut i fodloni’r anghenion o dan sylw.

- ( ) Mae’r camau sydd i’w cymryd gan awdurdod lleol o dan is-adran (1) yn cynnwys, ond nid yw’n gyfyngedig i’.

**Gwenda Thomas**

289

Section 7, page 8, line 24, after ‘organisations’, insert ‘(whether or not the organisations are social enterprises or co-operative organisations)’.

Adran 7, tudalen 8, llinell 26, hepgorer ‘gyrff trydydd sector’ a mewnosoder ‘sefydliadau trydydd sector (p’un a yw’r sefydliadau yn fentrau cymdeithasol neu’n sefydliadau cydweithredol ai peidio)’.

**William Graham**

88

Section 7, page 9, after line 16, insert –

‘(d) for the type and quality of services which may be provided under this section.’.

Adran 7, tudalen 9, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

‘(d) ar gyfer y math o wasanaethau y gellir eu darparu o dan yr adran hon a safon y gwasanaethau hynny.’.

**William Graham**

73

Section 8, page 9, line 19, after ‘advice’, insert ‘, including but not limited to, financial information,’.

*This amendment will ensure that people are also provided with financial information if required.*

Adran 8, tudalen 9, llinell 19, ar ôl ‘chyngor’, mewnosoder ‘, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, wybodaeth ariannol,’.

*Bydd y gwelliant hwn yn sicrhau y rhoddir gwybodaeth ariannol i bobl yn ôl yr angen.*

**Gwenda Thomas** 424

Section 8, page 9, after line 20, insert—

‘() In subsection (1)(a), “information” includes, but is not limited to, financial information (including information about direct payments).’.

Adran 8, tudalen 9, ar ôl llinell 20, mewnosoder—

‘() Yn is-adran (1)(a), mae “gwybodaeth” yn cynnwys gwybodaeth ariannol (gan gynnwys gwybodaeth am daliadau uniongyrchol), ond nid yw’n gyfyngedig i’r wybodaeth honno.’.

**William Graham** 74

Section 8, page 10, line 1, after ‘carers’, insert—

’, and

“financial information” includes, but is not limited to, information about direct payments’.

Adran 8, tudalen 10, llinell 1, ar ôl ‘ofalwyr’, mewnosoder—

’, ac

mae “gwybodaeth ariannol” yn cynnwys gwybodaeth am daliadau uniongyrchol, ond nid yw’n gyfyngedig i hynny’.

**Gwenda Thomas** 4

Section 9, page 10, line 3, leave out ‘who are’.

Nid oes angen diwygio’r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version

**Gwenda Thomas** 5

Section 9, page 10, line 4, leave out—

‘are—

- (a) blind,
- (b) deaf, or
- (c) both blind and deaf’,

And insert—

‘—

- ( ) are sight-impaired or severely sight-impaired,
- ( ) are hearing-impaired or severely hearing-impaired, or
- ( ) have sight and hearing impairments which, in combination, have a significant effect on their day to day lives’.

Adran 9, tudalen 10, hepgorer llinellau 5 hyd at 7 a mewnosoder –

- '( ) sydd â nam ar eu golwg neu nam difrifol ar eu golwg,
- ( ) sydd â nam ar eu clyw neu nam difrifol ar eu clyw, neu
- ( ) sydd â nam ar eu golwg ac ar eu clyw sydd, gyda'i gilydd, yn cael effaith sylweddol ar eu bywydau bob dydd.'

**Gwenda Thomas**

**6**

Section 9, page 10, line 8, leave out 'be established and maintained in a way that enables a person on the register to be identified as being blind, deaf or both blind and deaf' and insert 'identify, in respect of each person included in the register, the paragraph in subsection (1) within which that person falls'.

Adran 9, tudalen 10, llinell 8, hepgorer 'gael ei llunio a'i chynnal mewn modd sy'n galluogi person ar y gofrestr i gael ei adnabod fel person dall, byddar neu'n ddall ac yn fyddar' a mewnosoder 'nodi, mewn cysylltiad â phob person sydd wedi ei gynnwys yn y gofrestr, y paragraff yn is-adran (1) y mae'r person hwnnw yn dod o'i fewn'.

**Elin Jones**

**474**

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: William Graham**

Section 9, page 10, after line 9, insert –

- '( ) identifies a specific linguistic need of a person.'

*An amendment relating to the promotion of Welsh language service provision.*

Adran 9, tudalen 10, ar ôl llinell 9, mewnosoder –

- '( ) adnabod angen ieithyddol benodol person.'

*Gwelliant ynghylch hyrwyddo'r gwasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg.*

**Gwenda Thomas**

**7**

Section 9, page 10, line 10, leave out 'categories of people who are, or are not, to be treated as being blind or deaf or both blind and deaf for the purposes of subsection (1)' and insert ', for the purposes of subsection (1), categories of people who are, or are not, to be treated as falling within paragraph (a), (b) or (c) of that subsection'.

Adran 9, tudalen 10, llinell 10, hepgorer 'categoriâu o bobl sydd i'w trin, neu nad ydynt i'w trin, fel pobl sy'n ddall neu'n fyddar neu'n ddall ac yn fyddar at ddibenion is-adran (1)' a mewnosoder ', at ddibenion is-adran (1), gategoriâu o bobl sydd i'w trin, neu nad ydynt i'w trin, fel pe baent yn dod o fewn paragraff (a), (b) neu (c) o'r is-adran honno'.

**Elin Jones**

**475**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: William Graham**

To insert a new section –

*‘Welsh in care and support*

**( ) Strategic plans**

- (1) A local authority and a Local Health Board providing services in the area of that local authority must jointly prepare and publish a Welsh in care and support and well-being strategic plan for the local authority’s area.
- (2) The plan must be kept under review, and if necessary, revised.’.

*An amendment relating to the promotion of Welsh language service provision.*

I fewnosod adran newydd –

*‘Y Gymraeg mewn gofal a chymorth*

**( ) Cynlluniau strategol**

- (1) Rhaid i awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol sy’n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw lunio a chyhoeddi ar y cyd gynllun strategol ar gyfer y Gymraeg mewn gofal a chymorth a llesiant ar gyfer ardal yr awdurdod lleol.
- (2) Rhaid adolygu’r cynllun yn gyson, ac os oes angen, ei ddiwygio.’.

*Gwelliant ynghylch hyrwyddo’r gwasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg.*

**Elin Jones**

**476**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: William Graham**

To insert a new section –

**‘( ) Strategic plans: further provisions**

A Welsh in care and support and well-being strategic plan is a plan which contains –

- (a) a local authority’s proposals on how it will carry out its functions under this Act to improve the provision of its services under this Act through the medium of Welsh;
- (b) a Local Health Board’s proposals on how in exercising its functions under this Act or any other enactment it will collaborate with the local authority in its duty under paragraph (a).’.

*An amendment relating to the promotion of Welsh language service provision.*

I fewnosod adran newydd –

**‘( ) Cynlluniau strategol: darpariaethau pellach**

Mae cynllun strategol y Gymraeg mewn gofal a chymorth a llesiant yn gynllun sy’n cynnwys –

- (a) cynigion awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau o

dan y Ddeddf hon i wella ei ddarpariaeth o wasanaethau o dan y Ddeddf hon drwy gyfrwng y Gymraeg;

- (b) cynigion Bwrdd Iechyd Lleol ynghylch sut, wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon neu unrhyw ddeddfiad arall, y bydd yn cydweithio â'r awdurdod lleol o ran ei ddyletswydd o dan baragraff (a).'

*Gwelliant ynghylch hyrwyddo'r gwasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg.*

**William Graham**

**234**

Section 10, page 11, after line 4, insert—

'() Where it appears to a local authority that an adult is—

- (a) unlikely to achieve or maintain, or have the opportunity of achieving or maintaining, a reasonable standard of health or well-being, or  
(b) experiencing or at risk of abuse or neglect,

the authority must assess whether the adult does have needs for care and support, and, if the adult does, what those needs are.'

Adran 10, tudalen 11, ar ôl llinell 4, mewnosoder—

'() Pan fo'n ymddangos i awdurdod lleol—

- (a) ei bod yn annhebygol y bydd oedolyn yn sicrhau neu'n cynnal, neu'n cael y cyfle i sicrhau neu gynnal, safon resymol o iechyd neu lesiant, neu  
(b) bod oedolyn yn cael, neu'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso,

rheid i'r awdurdod asesu a oes gan yr oedolyn anghenion gofal a chymorth, ac os oes, beth yw'r anghenion hynny.'

**William Graham**

**235**

Section 10, page 11, line 5, leave out 'Where' and insert 'Subject to subsection (*subsection to be inserted by amendment 234*), where'.

Adran 10, tudalen 11, llinell 5, hepgorer 'Pan' a mewnosoder 'Yn ddarostyngedig i is-adran (*yr is-adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 234*), pan'.

**William Graham**

**89**

Section 10, page 11, line 6, leave out—

'assess—

- (a) whether the adult does have needs for care and support, and  
(b) if the adult does, what those needs are',

And insert—

'—

- ( ) assess whether the adult does have needs for care and support, and  
( ) assess, if the adult does, what those needs are, and



- ( ) if the local authority is not the appropriate body to meet those needs, refer the adult to the appropriate body’.

Adran 10, tudalen 11, llinell 6, hepgorer –

‘asesu –

- (a) a oes ar yr oedolyn anghenion am ofal a chymorth, a
- (b) os oes, beth yw’r anghenion hynny’,

A mewnosoder –

‘ –

- ( ) asesu a oes gan yr oedolyn anghenion gofal a chymorth, a
- ( ) os oes, beth yw’r anghenion hynny, ac
- ( ) os nad yr awdurdod lleol yw’r corff priodol i ddiwallu’r anghenion hynny, cyfeirio’r oedolyn at y corff priodol’.

**William Graham**

**236**

Section 10, page 11, line 9, leave out ‘subsection’ and insert ‘subsections (*subsection to be inserted by amendment 234*) and’.

Adran 10, tudalen 11, llinell 9, hepgorer ‘is-adran’ a mewnosoder ‘is-adrannau (*yr is-adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 234*) a’.

**Gwenda Thomas**

**8**

Section 10, page 11, line 10, leave out ‘adults who are’ and insert ‘an adult who is’.

Adran 10, tudalen 11, llinell 10, hepgorer ‘oedolion’ a mewnosoder ‘oedolyn’.

**Gwenda Thomas**

**9**

Section 10, page 11, line 11, leave out ‘other adults who are’ and insert ‘any other adult who is’.

Adran 10, tudalen 11, llinell 11, hepgorer ‘oedolion eraill’ a mewnosoder ‘ unrhyw oedolyn arall’.

**William Graham**

**237**

Section 10, page 11, line 12, leave out ‘subsection’ and insert ‘subsections (*subsection to be inserted by amendment 234*) and’.

Adran 10, tudalen 11, llinell 12, hepgorer ‘is-adran’ a mewnosoder ‘is-adrannau (*yr is-adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 234*) a’.

**William Graham**

**90**

Section 10, page 11, after line 14, insert –

- ‘(c) the ability of the adult to meet their own needs.’.

Adran 10, tudalen 11, ar ôl llinell 15, mewnosoder –

‘(c) gallu’r oedolyn i ddiwallu ei anghenion ei hun.’.

**William Graham**

87

Section 10, page 11, line 16, leave out ‘seek to identify’ and insert ‘ascertain through engagement with the adult’.

Adran 10, tudalen 11, llinell 17, hepgorer ‘ceisio canfod y canlyniadau y mae’r oedolyn yn’ a mewnosoder ‘canfod drwy ymgysylltu â’r oedolyn y canlyniadau y mae’n’.

**Gwenda Thomas**

10

Section 10, page 11, line 18, leave out ‘to what extent, the provision of care and support could contribute to the achievement of those outcomes’ and insert –

‘if so, to what extent, the provision of –

- (i) care and support,
- (ii) preventative services, or
- (iii) information, advice or assistance,

could contribute to the achievement of those outcomes or otherwise meet needs identified by the assessment, and

- (c) assess whether, and if so, to what extent, other matters could contribute to the achievement of those outcomes or otherwise meet those needs’.

Adran 10, tudalen 11, llinell 19, hepgorer ‘fyddai darparu gofal a chymorth yn gallu cyfrannu at sicrhau’r canlyniadau hynny, ac i ba raddau’ a mewnosoder –

‘allai darparu –

- (i) gofal a chymorth,
- (ii) gwasanaethau ataliol, neu
- (iii) gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy,

gyfrannu at sicrhau’r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu’r anghenion a nodir gan yr asesiad, ac os felly, i ba raddau, ac

- (c) asesu a allai materion eraill gyfrannu at sicrhau’r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu’r anghenion hynny, ac os felly, i ba raddau’.

**William Graham**

11A

As an amendment to amendment 11, leave out line 3, and insert –

- ‘( ) any carer that the adult has, and
- ( ) any person whom the adult asks the authority to involve, or where the adult lacks capacity to ask the authority to do that, any person who appears to the authority to be interested in the adult’s welfare.’.

Fel gwelliant i welliant 11, hepgorer llinell 4, a mewnosoder –

- ‘( ) unrhyw ofalwr sydd gan yr oedolyn, a
- ( ) unrhyw berson y mae’r oedolyn yn gofyn i’r awdurdod ei gynnwys, neu pan nad oes gan yr oedolyn alluedd i ofyn i awdurdod wneud hynny, unrhyw berson y mae’n ymddangos i’r awdurdod sydd â diddordeb yn llesiant yr oedolyn.’

**Gwenda Thomas**

**11**

Section 10, page 11, after line 19, insert –

- ‘( ) A local authority, in carrying out a needs assessment under this section, must involve –
- (a) the adult, and
- (b) where feasible, any carer that the adult has.’

Adran 10, tudalen 11, ar ôl llinell 20, mewnosoder –

- ‘( ) Rhaid i awdurdod lleol, wrth iddo wneud asesiad o anghenion o dan yr adran hon, gynnwys –
- (a) yr oedolyn, a
- (b) pan fo’n ddichonadwy, unrhyw ofalwr sydd gan yr oedolyn.’

**Kirsty Williams**

**115**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: William Graham**

Section 10, page 11, after line 22, insert –

- ‘(6) The local authority must include any other body in an assessment where appropriate.’

Adran 10, tudalen 11, ar ôl llinell 23, mewnosoder –

- ‘(6) Rhaid i’r awdurdod lleol gynnwys unrhyw gorff arall mewn asesiad pan fo’n briodol.’

**Kirsty Williams**

**116**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: William Graham**

Section 12, page 12, line 9, after ‘Where’, insert ‘a child is disabled or’.

Adran 12, tudalen 12, llinell 9, ar ôl ‘Pan’, mewnosoder ‘fo plentyn yn anabl neu pan’.

**William Graham**

**91**

Section 12, page 12, after line 20, insert –

- ‘(c) the ability of the child or any person with parental responsibility for the child to meet the child’s needs.’

Adran 12, tudalen 12, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

- ‘(c) gallu’r plentyn neu unrhyw berson arall a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn i ddiwallu anghenion y plentyn.’

**Gwenda Thomas**

**12**

Section 12, page 12, line 21, leave out subsection (4).

Adran 12, tudalen 12, llinell 22, hepgorer is-adran (4).

**Gwenda Thomas**

**13**

Section 12, page 12, after line 26, insert—

‘( ) assess the developmental needs of the child,’.

Adran 12, tudalen 12, ar ôl llinell 27, mewnosoder—

‘( ) asesu anghenion datblygiadol y plentyn,’.

**Gwenda Thomas**

**14**

Section 12, page 12, line 35, leave out ‘to what extent, the provision of care and support could contribute to the achievement of those outcomes’ and insert—

‘if so, to what extent, the provision of—

- (i) care and support,
- (ii) preventative services, or
- (iii) information, advice or assistance,

could contribute to the achievement of those outcomes or otherwise meet needs identified by the assessment,

- (c) assess whether, and if so, to what extent, other matters could contribute to the achievement of those outcomes or otherwise meet those needs, and
- (d) take account of any other circumstances affecting the child’s well-being’.

Adran 12, tudalen 12, llinell 37, hepgorer ‘gofal a chymorth gyfrannu at sicrhau’r canlyniadau hynny ac i ba raddau’ a mewnosoder—

‘—

- (i) gofal a chymorth,
- (ii) gwasanaethau ataliol, neu
- (iii) gwybodaeth, cyngor neu gymhorthwy,

gyfrannu at sicrhau’r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu’r anghenion hynny, ac os felly, i ba raddau,

- (c) asesu a allai materion eraill gyfrannu at sicrhau’r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu’r anghenion hynny, ac os felly, i ba raddau, a
- (d) ystyried unrhyw amgylchiadau eraill sy’n effeithio ar lesiant y plentyn’.

**Gwenda Thomas**

15

Section 12, page 12, after line 36, insert –

- ‘() A local authority, in carrying out a needs assessment under this section, must involve –
- (a) the child, and
  - (b) any person with parental responsibility for the child.’

Adran 12, tudalen 12, ar ôl llinell 38, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i awdurdod lleol, wrth iddo wneud asesiad o anghenion o dan yr adran hon, gynnwys –
- (a) y plentyn, a
  - (b) unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.’

**Kirsty Williams**

117

**Gyda chefnogaeth / Supported by: William Graham**

Section 12, page 13, after line 3, insert –

- ‘() The local authority must include any other body in an assessment where appropriate.’

Adran 12, tudalen 13, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i'r awdurdod lleol gynnwys unrhyw gorff arall mewn asesiad pan fo'n briodol.’

**Gwenda Thomas**

290

Section 12, page 13, line 4, leave out ‘(see Part 6 for provision about looked after children)’ and insert –

- ‘,
- (b) a local authority in England,
  - (c) a local authority in Scotland, or
  - (d) a Health and Social Care trust’.

Adran 12, tudalen 13, llinell 4, hepgorer ‘y mae awdurdod lleol yn gofalu amdano (gweler Rhan 6 am y ddarpariaeth ynghylch plant y gofelir amdanynt)’ a mewnosoder –

‘sy'n derbyn gofal gan –

- (a) awdurdod lleol,
- (b) awdurdod lleol yn Lloegr,
- (c) awdurdod lleol yn yr Alban, neu
- (d) ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol’.

**William Graham**

112

Section 14, page 13, line 33, after ‘12’, insert –

‘where –

- (a) it is in the best interests of the child, or’.

Adran 14, tudalen 13, llinell 35, ar ôl '12', mewnosoder –

'pan –

- (a) fo er lles pennaf y plentyn, neu'.

**Gwenda Thomas**

16

Section 14, page 14, line 7, leave out 'or the needs of a person with parental responsibility for the child or either of their circumstances' and insert ', the needs of a person with parental responsibility for the child or the circumstances of the child or a person with parental responsibility for the child'.

Adran 14, tudalen 14, llinell 8, hepgorer 'neu anghenion y person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu amgylchiadau'r naill neu'r llall' a mewnosoder ', anghenion person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu amgylchiadau'r plentyn neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn'.

**William Graham**

238

Section 15, page 14, after line 11, insert –

'() Where it appears to a local authority that a carer is –

- (a) unlikely to achieve or maintain, or have the opportunity of achieving or maintaining, a reasonable standard of health or well-being, or
- (b) experiencing or at risk of abuse or neglect,

the authority must assess whether the carer does have needs for support, and, if the carer does, what those needs are.'

Adran 15, tudalen 14, ar ôl llinell 12, mewnosoder –

'() Pan fo'n ymddangos i awdurdod lleol –

- (a) ei bod yn annhebygol y bydd gofalwr yn sicrhau neu'n cynnal, neu'n cael y cyfle i sicrhau neu gynnal, safon resymol o iechyd neu lesiant, neu
- (b) bod gofalwr yn cael, neu'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso,

rhaid i'r awdurdod asesu a oes gan y gofalwr anghenion gofal a chymorth, ac os oes, beth yw'r anghenion hynny.'

**Gwenda Thomas**

17

Section 15, page 14, line 12, leave out 'A local authority must assess a carer's needs for support if it appears to the authority that a carer may have needs for support (whether currently or' and insert –

'Where it appears to a local authority that a carer may have needs for support, the authority must assess –

- (a) whether the carer does have needs for support (or is likely to do so in the future), and
- (b) if the carer does, what those needs are (or are likely to be'.

Adran 15, tudalen 14, llinell 13, hepgorer 'Rhaid i awdurdod lleol asesu anghenion gofalwr am gymorth os yw'n ymddangos i'r awdurdod y gall fod ar ofalwr anghenion am gymorth (p'un ai ar y pryd neu' a mewnosoder –

'Pan fo'n ymddangos i awdurdod lleol y gall fod ar ofalwr anghenion am gymorth, rhaid i'r awdurdod asesu –

- (a) a oes ar y gofalwr anghenion am gymorth (neu a yw'n debygol y bydd arno anghenion am gymorth yn y dyfodol), a
- (b) os oes, beth yw'r anghenion hynny (neu'r anghenion tebygol'.

**William Graham**

**239**

Section 15, page 14, at the beginning of line 12, insert 'Subject to subsection (*subsection to be inserted by amendment 238*).

Adran 15, tudalen 14, ar ddechrau llinell 13, mewnosoder 'Yn ddarostyngedig i is-adran (*yr is-adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 238*).

**William Graham**

**240**

Section 15, page 14, line 14, leave out 'subsection' and insert 'subsections (*subsection to be inserted by amendment 238*) and'.

Adran 15, tudalen 14, llinell 16, hepgorer 'is-adran' a mewnosoder 'is-adrannau (*yr is-adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 238*) a'.

**William Graham**

**241**

Section 15, page 14, line 18, leave out 'subsection' and insert 'subsections (*subsection to be inserted by amendment 238*) and'.

Adran 15, tudalen 14, llinell 20, hepgorer 'is-adran' a mewnosoder 'is-adrannau (*yr is-adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 238*) a'.

**William Graham**

**92**

Section 15, page 14, after line 21, insert –

'(c) the ability of the carer to meet their own needs.'

Adran 15, tudalen 14, ar ôl llinell 23, mewnosoder –

'(c) gallu'r gofalwr i ddiwallu ei anghenion ei hun.'

**Gwenda Thomas**

**18**

Section 15, page 14, line 22, leave out subsection (4).

Adran 15, tudalen 14, llinell 24, hepgorer is-adran (4).

**Gwenda Thomas**

**19**

Section 15, page 14, after line 26, insert –

- '( ) assess the extent to which the carer is able, and will continue to be able, to provide care for the person for whom the carer provides or intends to provide care,
- ( ) assess the extent to which the carer is willing, and will continue to be willing, to do so,'.

Adran 15, tudalen 14, ar ôl llinell 29, mewnosoder –

- '( ) asesu i ba raddau y mae'r gofalwr yn gallu, ac y bydd yn parhau i allu, darparu gofal i'r person y mae'r gofalwr yn darparu neu'n bwriadu darparu gofal iddo,
- ( ) asesu i ba raddau y mae'r gofalwr yn fodlon, ac y bydd yn parhau i fod yn fodlon, gwneud hynny,'.

**Gwenda Thomas**

**20**

Section 15, page 15, line 1, leave out 'to what extent, the provision of support could contribute to the achievement of those outcomes' and insert –

'if so, to what extent, the provision of –

- (i) support,
- (ii) preventative services, or
- (iii) information, advice or assistance,

could contribute to the achievement of those outcomes or otherwise meet needs identified by the assessment, and

- (d) assess whether, and if so, to what extent, other matters could contribute to the achievement of those outcomes or otherwise meet those needs'.

Adran 15, tudalen 15, llinell 1, hepgorer ', ac i ba raddau y gallai, darparu cymorth gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau hynny' a mewnosoder –

'darparu –

- (i) cymorth,
- (ii) gwasanaethau ataliol, neu
- (iii) gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy,

gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu'r anghenion a nodir gan yr asesiad, ac os felly, i ba raddau, a

- (d) asesu a allai materion eraill gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu'r anghenion hynny, ac os felly, i ba raddau'.

**William Graham**

**21A**

As an amendment to amendment 21, leave out lines 8 to 9, and insert –

- '( ) where the carer is a child, any person with parental responsibility for the carer,
- ( ) the person for whom the carer provides or intends to provide care, and



- ( ) any other person who the carer asks the authority to involve, or where the carer is a child and they lack capacity to do that, any person who the person with parental responsibility for the carer asks the authority to involve.’.

Fel gwelliant i welliant 21, hepgorer llinellau 8 i 9, a mewnosoder –

- ‘( ) pan fo’r gofalwr yn blentyn, unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y gofalwr,
- ( ) y person y mae’r gofalwr yn darparu, neu’n bwriadu darparu, gofal iddo, a
- ( ) unrhyw berson arall y mae’r gofalwr yn gofyn i’r awdurdod ei gynnwys, neu pan fo’r gofalwr yn blentyn ac nid oes ganddo alluedd i wneud hynny, unrhyw berson y mae’r person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y gofalwr yn gofyn i’r awdurdod ei gynnwys.’.

**Gwenda Thomas**

**21**

Section 15, page 15, line 12, leave out –

‘so far as it is reasonable to do so consult –

- (a) the carer to whom the assessment relates,
- (b) the person for whom the carer provides or intends to provide care, and
- (c) any person specified in regulations under section 18’,

And insert –

‘involve –

- ( ) the carer, and
- ( ) where feasible, the person for whom the carer provides or intends to provide care’.

Adran 15, tudalen 15, llinell 13, hepgorer –

‘ymgyngori i’r graddau y mae’n ddichonadwy gwneud hynny â’r canlynol –

- (a) y gofalwr y mae’r asesiad yn ymwneud ag ef,
- (b) y person y mae’r gofalwr yn darparu, neu’n bwriadu darparu, gofal iddo, ac
- (c) unrhyw berson a bennir mewn rheoliadau o dan adran 18’,

A mewnosoder –

‘gynnwys –

- ( ) y gofalwr, a
- ( ) pan fo’n ddichonadwy, y person y mae’r gofalwr yn darparu neu’n bwriadu darparu gofal iddo’.

**Kirsty Williams**

**118**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: William Graham**

Section 15, page 15, after line 19, insert –

- ‘(9) The local authority must include any other body in an assessment where appropriate.’.

Adran 15, tudalen 15, ar ôl llinell 19, mewnosoder –

‘(9) Rhaid i’r awdurdod lleol gynnwys unrhyw gorff arall mewn asesiad pan fo’n briodol.’

**William Graham**

**248**

Section 17, page 16, after line 6, insert –

‘() the other body may carry out a needs assessment on behalf of or jointly with the local authority.’

Adran 17, tudalen 16, ar ôl llinell 6, mewnosoder –

‘() caiff y corff arall wneud asesiad o anghenion ar ran yr awdurdod lleol neu ar y cyd ag ef.’

**William Graham**

**249**

Section 17, page 16, line 7, leave out ‘other body has already arranged for the other assessment to be carried out jointly with another person, the local authority may carry out the other assessment jointly with the other body and’ and insert ‘local authority or other body has already arranged for an assessment to be carried out jointly with another person, the local authority or other body may carry out that assessment jointly with’.

Adran 17, tudalen 16, llinell 7, hepgorer ‘corff arall eisoes wedi trefnu i’r asesiad arall gael ei wneud ar y cyd â pherson arall, caiff yr awdurdod lleol wneud yr asesiad arall ar y cyd â’r corff arall a’r’ a mewnosoder ‘awdurdod lleol neu’r corff arall eisoes wedi trefnu i asesiad gael ei wneud ar y cyd â pherson arall, caiff yr awdurdod lleol neu’r corff arall wneud yr asesiad hwnnw ar y cyd â’r’.

**Elin Jones**

**477**

To insert a new section –

‘() **Assessments: language of choice**

An assessment under Part 3 must be conducted in the language of choice of the person being assessed.’

*An amendment relating to the promotion of Welsh language service provision.*

I fewnosod adran newydd –

‘() **Asesiadau: dewis iaith**

Rhaid cynnal asesiad o dan Ran 3 yn newis iaith y person a asesir.’

*Gwelliant ynghylch hyrwyddo’r gwasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg.*

**William Graham**

**93**

Section 18, page 16, line 11, leave out ‘may make further’ and insert ‘must make’.

Adran 18, tudalen 16, llinell 11, hepgorer ‘Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach’ a mewnosoder ‘Rhaid i reoliadau wneud darpariaeth’.

**Gwenda Thomas** 22

Section 18, page 16, line 13, leave out 'who are to be consulted in relation to' and insert 'whom a local authority must involve in carrying out'.

Adran 18, tudalen 16, llinell 13, hepgorer 'ymgynggori â hwy mewn perthynas ag' a mewnosoder 'i awdurdod lleol eu cynnwys wrth iddo wneud'.

**William Graham** 94

Section 18, page 16, line 15, leave out ', by whom'.

Adran 18, tudalen 16, llinell 15, hepgorer ', a chan bwy'.

WITHDRAWN/TYNNWYD YN ÔL

**William Graham** 95

Section 18, page 16, after line 20, insert—

'(g) appeals against assessment decisions.'

Adran 18, tudalen 16, ar ôl llinell 19, mewnosoder—

'(g) apelïadau yn erbyn penderfyniadau a wneir mewn asesiadau.'

**William Graham** 113

Section 18, page 16, after line 20, insert—

'(g) the steps that a local authority must take for the purpose of ensuring that an assessment is carried out in an appropriate and proportionate manner.'

Adran 18, tudalen 16, ar ôl llinell 19, mewnosoder—

'(g) y camau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu cymryd er mwyn sicrhau y cynhelir asesiad mewn modd priodol a chymesur.'

**William Graham** 96

Section 18, page 16, after line 20, insert—

(3) Regulations must specify the persons or descriptions of persons who have the necessary skills to carry out an assessment.'

Adran 18, tudalen 16, ar ôl llinell 19, mewnosoder—

(3) Rhaid i reoliadau bennu'r personau neu ddisgrifiadau o bersonau sy'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol i gynnal asesiad.'

**William Graham** 181

Section 18, page 16, after line 20, insert—

(3) Regulations under this section must provide for the carrying out of needs assessments by the most appropriate person.'

Adran 18, tudalen 16, ar ôl llinell 19, mewnosoder –

‘(3) Rhaid i reoliadau o dan yr adran hon ddarparu i’r person mwyaf priodol wneud asesiadau o anghenion.’

**Lindsay Whittle**

408

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: William Graham**

Section 18, page 16, after line 20, insert –

‘(3) Regulations must make provision about appeals against assessment decisions.’

*An amendment to include provision enabling service users to appeal against decisions made regarding assessments.*

Adran 18, tudalen 16, ar ôl llinell 19, mewnosoder –

‘(3) Rhaid i reoliadau wneud darpariaeth ynghylch apelau yn erbyn penderfyniadau asesu.’

*Gwelliant i gynnwys darpariaeth sy’n galluogi defnyddwyr gwasanaethau i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir ynghylch asesiadau.*

**Gwenda Thomas**

23

To insert a new section –

‘() **Part 3: interpretation**

In this Part –

“information, advice or assistance” (“*gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy*”) means information, advice or assistance that may be provided by virtue of section 8;

“preventative services” (“*gwasanaethau ataliol*”) means services that may be provided by virtue of section 6.’

I fewnosod adran newydd –

‘() **Rhan 3: dehongli**

Yn y Rhan hon –

ystyr “*gwasanaethau ataliol*” (“*preventative services*”) yw gwasanaethau y gellir eu darparu yn rhinwedd adran 6;

ystyr “*gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy*” (“*information, advice or assistance*”) yw gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy y gellir eu darparu yn rhinwedd adran 8.’

**Kirsty Williams**

119

Section 19, page 16, after line 24, insert –

‘() A local authority must meet the needs of a disabled child.’

Adran 19, tudalen 16, ar ôl llinell 23, mewnosoder –

‘() Rhaid i awdurdod lleol ddiwallu anghenion plentyn anabl.’

**William Graham**

**242**

Section 19, page 16, after line 24, insert –

- ‘() A local authority must meet an adult’s need for care and support or a carer’s need for support where it is necessary –
  - (a) to enable the person to achieve or maintain, or to have the opportunity of achieving or maintaining, a reasonable standard of health or well-being, or
  - (b) to protect the person from abuse or neglect, or risk of abuse or neglect.
- () A local authority must meet a child’s needs for care and support where the child is experiencing or at risk of abuse, neglect or other kinds of harm.’.

Adran 19, tudalen 16, ar ôl llinell 23, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i awdurdod lleol ddiwallu anghenion oedolyn am ofal a chymorth neu angen gofalwr am gymorth pan fo hynny’n angenrheidiol –
  - (a) i alluogi’r person i sicrhau neu gynnal, neu i gael y cyfle i sicrhau neu gynnal, safon resymol o iechyd neu lesiant, neu
  - (b) i amddiffyn y person rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu rhag risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.
- () Rhaid i awdurdod lleol ddiwallu anghenion plentyn am ofal a chymorth pan fo’r plentyn yn cael, neu’n wynebu risg o gael, ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio mewn modd arall.’.

**Kirsty Williams**

**120**

Section 19, page 16, at the beginning of line 25, insert ‘Subject to subsection (*subsection to be inserted by amendment 119*)’.

Adran 19, tudalen 16, ar ddechrau llinell 24, mewnosoder ‘Yn ddarostyngedig i is-adran (*yr is-adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 119*)’.

**William Graham**

**243**

Section 19, page 16, line 25, leave out ‘Where’ and insert ‘Subject to subsections (*first subsection to be inserted by amendment 242*) and (*second subsection to be inserted by amendment 242*), where’.

Adran 19, tudalen 16, llinell 24, hepgorer ‘Pan’ a mewnosoder ‘Yn ddarostyngedig i is-adrannau (*yr is-adran cyntaf sy’n cael ei fewnosod gan welliant 242*) a (*yr ail is-adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 242*), pan’.

**William Graham**

**244**

Section 19, page 16, leave out lines 28 to 31.

Adran 19, tudalen 16, hepgorer llinellau 29 hyd at 34.

**Gwenda Thomas**

**24**

Section 19, page 16, after line 34, insert –

- ‘(d) consider whether the person would benefit from the provision of anything that may be provided by virtue of section 6 (preventative services) or 8 (information, advice and assistance) or anything else that may be available in the community.’.

Adran 19, tudalen 16, ar ôl llinell 37, mewnosoder –

- ‘(d) ystyried a fyddai darparu unrhyw beth y gellir ei ddarparu yn rhinwedd adran 6 (gwasanaethau ataliol) neu 8 (gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy) neu unrhyw beth arall a all fod ar gael yn y gymuned o fudd i’r person.’.

**Kirsty Williams**

**121**

Section 19, page 17, line 6, leave out ‘subsection’ and insert ‘subsections (*subsection to be inserted by amendment 119*) and’.

Adran 19, tudalen 17, llinell 6, hepgorer ‘is-adran’ a mewnosoder ‘is-adrannau (*yr is-adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 119*) ac’.

**William Graham**

**245**

Section 19, page 17, line 6, leave out ‘subsection’ and insert ‘subsections (*first subsection to be inserted by amendment 242*), (*second subsection to be inserted by amendment 242*) or’.

Adran 19, tudalen 17, llinell 6, hepgorer ‘is-adran’ a mewnosoder ‘is-adrannau (*yr is-adran cyntaf sy’n cael ei fewnosod gan welliant 242*), (*yr ail is-adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 242*) neu’.

**Kirsty Williams**

**499**

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: Lindsay Whittle**

Section 19, page 17, line 7, leave out subsection (4) and insert –

- ‘( ) The eligibility criteria are met where one or more of the following circumstances apply –
- (a) there is, or will be, an inability to carry out several personal care or domestic routines,
  - (b) the individual is, or will be, unable to maintain control over several aspects of their day-to-day life,
  - (c) involvement in several aspects of work, education, training or recreation cannot or will not be sustained,
  - (d) several domestic, family and personal relationships cannot or will not be sustained,
  - (e) there is abuse or neglect or risk of abuse or neglect.
- ( ) In the case of a child the eligibility criteria are met where subsection (*first subsection to be inserted by amendment 499*) applies or there is harm or risk of harm.’.

Adran 19, tudalen 17, llinell 7, hepgorer is-adran (4) a mewnosoder –

- ( ) Bodlonir y meini prawf cymhwysra pan fydd un neu ragor o’r amgylchiadau a ganlyn yn gymwys –
- (a) bod, neu bydd, analluedd i ymgymryd â sawl tasg arferol o ran gofal personol neu ddomestig,
  - (b) nad yw’r unigolyn, neu na fydd yr unigolyn, yn gallu cynnal rheolaeth dros sawl agwedd ar ei fywyd pob dydd,
  - (c) na ellir cynnal sawl agwedd ar waith, addysg, hyfforddiant neu weithgareddau hamdden neu na fydd yr agweddau hynny yn cael eu cynnal,
  - (d) na ellir cynnal sawl perthynas ddomestig, deuluol neu bersonol neu na fydd y perthnasoedd hynny yn cael eu cynnal,
  - (e) bod camdriniaeth neu esgeulustod neu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod.
- ( ) Yn achos plentyn, bodlonir y meini prawf cymhwysra pan fydd is-adran (*yr is-adran cyntaf sy’n cael ei fewnosod gan welliant 499*) yn gymwys neu pan fydd niwed neu risg o niwed.’.

**Gwenda Thomas**

**25**

Section 19, page 17, line 7, leave out –

‘rank at or above the level of need that is –

- (a) set in the regulations by reference to specified levels of need, or
- (b) if the regulations so require, set by a local authority for its area by reference to specified levels of need’,

And insert –

‘ –

- ( ) are of a description specified in regulations, or
- ( ) form part of a combination of needs of a description so specified’.

Adran 19, tudalen 17, llinell 7, hepgorer –

‘ar neu uwchlaw lefel yr angen –

- (a) sydd wedi ei nodi yn y rheoliadau drwy gyfeirio at lefelau penodedig o angen, neu
- (b) sydd, os yw hynny’n ofynnol gan y rheoliadau, wedi ei phennu gan awdurdod lleol ar gyfer ei ardal drwy gyfeirio at lefelau penodedig o angen’,

A mewnosoder –

‘ –

- ( ) o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau, neu
- ( ) yn rhan o gyfuniad o anghenion o ddisgrifiad a bennir felly’.

**Gwenda Thomas**

26

Section 19, page 17, line 11, leave out ‘provide that, in cases or circumstances of a specified type, the person’s needs are to be regarded as meeting the eligibility criteria’ and insert –

‘, for example, describe needs by reference to –

- (a) the effect that the needs have on the person concerned;
- (b) the person’s circumstances’.

Adran 19, tudalen 17, llinell 13, hepgorer ‘ddarparu, mewn achosion neu amgylchiadau o fath penodedig, fod anghenion y person i’w hystyried yn rhai sy’n bodloni’r meini prawf cymhwysra’ a mewnosoder –

‘, er enghraifft, ddisgrifio anghenion drwy gyfeirio at –

- (a) yr effaith y mae’r anghenion yn ei chael ar y person o dan sylw;
- (b) amgylchiadau’r person’.

**William Graham**

97

Section 19, page 17, after line 12, insert –

‘(6) Where none of the needs of the adult concerned meet the eligibility criteria, the local authority must give him or her written advice and information about –

- (a) what can be done to meet or reduce the needs;
- (b) what can be done to prevent or delay the development of needs for care and support, or the development of needs for support, in the future.’.

Adran 19, tudalen 17, ar ôl llinell 14, mewnosoder –

‘(6) Pan nad yw dim o anghenion yr oedolyn o dan sylw yn bodloni’r meini prawf cymhwysra, rhaid i’r awdurdod lleol ddarparu cyngor a gwybodaeth ysgrifenedig iddo ynghylch –

- (a) yr hyn y gellir ei wneud i ddiwallu’r anghenion hynny, neu eu lleihau;
- (b) yr hyn y gellir ei wneud i atal neu oedi datblygiad yr angen am ofal a chymorth, neu ddatblygiad yr angen am gymorth, yn y dyfodol.’.

**Kirsty Williams**

60

To insert a new section –

**‘( ) Procedure for regulations under section 19**

- (1) The Welsh Ministers must comply with this section before making regulations under section 19 to provide for proposals about the detail of eligibility criteria and what constitutes eligible need.
- (2) The Welsh Ministers must consult –
  - (a) each of the persons and bodies identified in Schedule (*Schedule to be inserted by amendment 63*), and
  - (b) such other persons or bodies as appear to the Welsh Ministers likely to be affected



by the proposals or to represent the interests of persons likely to be affected by the proposals.

- (3) If, following consultation under subsection (2), the Welsh Ministers wish to proceed with the regulations they must lay before the National Assembly for Wales a document which—
  - (a) explains the proposals,
  - (b) sets them out in the form of draft regulations, and
  - (c) gives details of the consultation under subsection (2).
- (4) The Welsh Ministers may, by order, add to Schedule (*Schedule to be inserted by amendment 63*).
- (5) No draft of regulations under section 19 to give effect to the proposals (“the final draft regulations”) may be laid before the Assembly in accordance with this section until after the expiry of the period of 60 days beginning with the day on which the document relating to the proposals was laid before the National Assembly for Wales under subsection (3).
- (6) In calculating the period mentioned in subsection (5) no account shall be taken of any time during which the National Assembly for Wales is dissolved or is in recess for more than four days.
- (7) In preparing the final draft regulations the Welsh Ministers must consider any representations made during the period mentioned in subsection (5).
- (8) If the final draft regulations are laid before the National Assembly for Wales in accordance with this section the regulations must be accompanied by a statement of the Welsh Ministers giving details of—
  - (a) any representations considered in accordance with subsection (7), and
  - (b) any changes made to the proposals contained in the document laid before the National Assembly for Wales under subsection (3) which are given effect to in the final draft regulations.’.

I fewnosod adran newydd—

**‘(i) Y weithdrefn ar gyfer rheoliadau o dan adran 19**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â’r adran hon cyn gwneud rheoliadau o dan adran 19 i ddarparu ar gyfer cynigion ynghylch manylion meini prawf cymhwysra a’r hyn sy’n gyfystyr ag angen cymwys.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag—
  - (a) pob un o’r personau a’r cyrff a nodir yn Atodlen (*Atodlen sy’n cael ei fewnosod gan welliant 63*), a
  - (b) y personau neu’r cyrff eraill hynny yr ymddengys yn debygol i Weinidogion Cymru yr effeithir arnynt gan y cynigion.
- (3) Os bydd Gweinidogion Cymru, yn dilyn ymgynghoriad o dan is-adran (2), yn dymuno bwrw ymlaen â’r rheoliadau, rhaid iddynt osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddogfen—

- (a) sy'n esbonio'r cynigion,
  - (b) sy'n eu gosod ar ffurf rheoliadau drafft, ac
  - (c) sy'n rhoi manylion yr ymgynghoriad o dan is-adran (2).
- (4) Caiff Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ychwanegu at Atodlen (*Atodlen sy'n cael ei fewnosod gan welliant 63*).
- (5) Ni chaiff unrhyw reoliadau drafft o dan adran 19 i roi effaith i'r cynigion ("y rheoliadau drafft terfynol") gael eu gosod gerbron y Cynulliad yn unol â'r adran hon tan ar ôl i'r cyfnod o 60 diwrnod, sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd y ddogfen ynglŷn â'r cynigion ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (3), ddirwyn i ben.
- (6) Wrth gyfrifo'r cyfnod a grybwyllir yn is-adran (5), rhaid peidio ag ystyried unrhyw amser pryd y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod.
- (7) Wrth baratoi'r rheoliadau drafft terfynol rhaid i Weindogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod a grybwyllir yn is-adran (5).
- (8) Os caiff y rheoliadau drafft terfynol eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r adran hon rhaid i ddatganiad gan Weinidogion Cymru gyd-fynd â'r rheoliadau sy'n rhoi manylion –
- (a) unrhyw sylwadau a ystyriwyd yn unol ag is-adran (7), a
  - (b) unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynigion a oedd wedi eu cynnwys yn y ddogfen a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (3) ac y rhoddir effaith iddynt yn y rheoliadau drafft terfynol.'

**Kirsty Williams**

**63**

To insert a new schedule –

**'SCHEDULE 1**

*(introduced by section (section to be inserted by amendment 60))*

**CONSULTEES FOR THE PURPOSE OF SECTION (SECTION TO BE INSERTED BY AMENDMENT 60)**

The following are persons and bodies to be consulted for the purpose of section (*section to be inserted by amendment 60*) –

Age Cymru;

Barnardo's Cymru;

British Association of Social Workers Cymru;

Carers Wales;

Chartered Society of Physiotherapy;

College of Occupational Therapists;

Contact a Family Cymru;

Leonard Cheshire Disability Cymru;

Local authorities in Wales;

Mencap Cymru;

Multiple Sclerosis Society Cymru;  
National Autistic Society Cymru;  
National Society for the Prevention of Cruelty to Children;  
Royal College of Nursing Cymru;  
Royal Voluntary Service;  
Scope Cymru;  
Sense Cymru;  
Wales Alliance for Mental Health.’.

I fewnosod Atodlen newydd –

‘ATODLEN 1

*(a gyflwynwyd gan adran (adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 60))*

YMGYNGOREION AT DDIBENION ADRAN (*ADRAN SY’N CAEL EI FEWNOSOD GAN WELLIANT 60*)

Y personau a’r cyrff i ymgynghori â hwy at ddibenion adran (*adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 60*) yw’r canlynol.

Age Cymru;  
Awdurdodau lleol yng Nghymru;  
Barnardo’s Cymru;  
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru;  
Coleg y Therapyddion Galwedigaethol;  
Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru;  
Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant;  
Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru;  
Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi;  
Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru;  
Cynhalwyr Cymru;  
Cyswllt Teulu Cymru;  
Leonard Cheshire Disability Cymru;  
Mencap Cymru;  
Multiple Sclerosis Society Cymru;  
Royal Voluntary Service Cymru;  
Scope Cymru;  
Sense Cymru.’.

**Gwenda Thomas** 27

Section 20, page 17, line 18, after 'something', insert ', or by arranging for something to be provided,'.

Adran 20, tudalen 17, llinell 20, ar ôl 'rhywbeth', mewnosoder ', neu drwy drefnu i rywbeth gael ei ddarparu,'.

**Gwenda Thomas** 425

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 20, tudalen 17, llinell 22, hepgorer 'caniateir' a mewnosoder 'gellir'.

**Gwenda Thomas** 28

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 20, tudalen 17, llinell 22, ar ôl 'ddarparu', mewnosoder 'neu ei drefnu'.

**Gwenda Thomas** 122A

As an amendment to amendment 122, line 1, leave out 'provision of equipment', and insert 'aids'.

Fel gwelliant i welliant 122, llinell 1, hepgorer 'darparu cyfarpar', a mewnosoder 'cymhorthion'.

**Kirsty Williams** 122

Section 20, page 17, after line 28, insert –

'(h) provision of equipment and adaptations.'

Adran 20, tudalen 17, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

'(h) darparu cyfarpar ac addasiadau.'

**William Graham** 123

Section 20, page 17, after line 28, insert –

'(h) occupational therapy.'

Adran 20, tudalen 17, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

'(h) therapi galwedigaethol.'

**William Graham** 124

Section 20, page 17, after line 28, insert –

'(h) targeted interventions to minimise the effect of disability.'

Adran 20, tudalen 17, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

'(h) ymyriadau wedi'u targedu i leihau effaith anabledd.'

**Kirsty Williams**

**101**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Lindsay Whittle**

To insert a new section –

**‘( ) Co-operation**

In meeting needs under sections 21 to 29 a local authority must make arrangements for ensuring co-operation between –

- (a) the officers of the authority who exercise the authority’s functions relating to adults with needs for care and support or its functions relating to carers who need support; and
- (b) the officers of the authority who exercise the authority’s functions relating to housing (in so far as the exercise of those functions is relevant to functions referred to in paragraph (a)).’.

I fewnosod adran newydd –

**‘( ) Cydweithrediad**

Wrth ddiwallu anghenion o dan adrannau 21 i 29 rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau ar gyfer sicrhau cydweithrediad rhwng –

- (a) swyddogion yr awdurdod sy’n arfer swyddogaethau’r awdurdod mewn perthynas ag oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth neu ei swyddogaethau mewn perthynas â gofalwyr sydd angen cymorth; a
- (b) swyddogion yr awdurdod sy’n arfer swyddogaethau’r awdurdod mewn perthynas â thai (i’r graddau y mae arfer y swyddogaethau hynny yn berthnasol i swyddogaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (a)).’.

**Gwenda Thomas**

**29**

Section 21, page 18, line 4, after ‘met’, insert ‘(but see subsection (*subsection to be inserted by amendment 30*))’.

Adran 21, tudalen 18, llinell 4, ar ôl ‘cyflawni’, mewnosoder ‘(ond gweler is-adran (*is-adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 30*))’.

**Gwenda Thomas**

**30**

Section 21, page 18, after line 24, insert –

- ‘(6) The duty under subsection (1) does not apply to an adult’s needs to the extent that the local authority is satisfied that those needs are being met by a carer.’.

Adran 21, tudalen 18, ar ôl llinell 26, mewnosoder –

- ‘(6) Nid yw’r ddyletsywydd o dan is-adran (1) yn gymwys i anghenion oedolyn i’r graddau y mae’r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod yr anghenion hynny yn cael eu diwallu gan ofalwr.’.

**Gwenda Thomas** **31**

Section 23, page 19, line 4, after 'met', insert '(but see subsections (*second subsection to be inserted by amendment 32*) and (4))'.

Adran 23, tudalen 19, llinell 5, ar ôl 'cyflawni', mewnosoder '(ond gweler is-adrannau (*yr ail is-adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 32*) a (4))'.

**William Graham** **125**

Section 23, page 19, line 11, after 'harm' at the second place where it appears, insert –

', or

(iii) such other acts or omissions as may be specified in regulations'.

Adran 23, tudalen 19, llinell 12, ar ôl 'arall', mewnosoder –

', neu

(iii) rhag unrhyw weithredoedd neu anweithiau eraill a bennir mewn rheoliadau'.

**Gwenda Thomas** **32**

Section 23, page 19, after line 11, insert –

'() If the local authority has been notified about a child under section 98(2)(a), it must treat the child as being within its area for the purposes of this section.

() The duty under subsection (1) does not apply to a child's needs to the extent that the local authority is satisfied that those needs are being met by the child's family or a carer.'

Adran 23, tudalen 19, ar ôl llinell 12, mewnosoder –

'() Os yw'r awdurdod lleol wedi ei hysbysu am blentyn o dan adran 98(2)(a), rhaid iddo drin y plentyn fel un sydd o fewn ei ardal at ddibenion yr adran hon.

() Nid yw'r ddyletswydd o dan is-adran (1) yn gymwys i anghenion plentyn i'r graddau y mae'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod yr anghenion hynny yn cael eu diwallu gan deulu'r plentyn neu ofalwr.'

**Gwenda Thomas** **291**

Section 23, page 19, line 12, leave out '(see Part 6 for provision about looked after children)' and insert –

',

(b) a local authority in England,

(c) a local authority in Scotland, or

(d) a Health and Social Care trust'.

Adran 23, tudalen 19, llinell 13, hepgorer 'y gofelir amdano gan awdurdod lleol (gweler Rhan 6 am y ddarpariaeth ynghylch plant y gofelir amdanynt)' a mewnosoder –

'sy'n derbyn gofal gan –

- (a) awdurdod lleol,
- (b) awdurdod lleol yn Lloegr,
- (c) awdurdod lleol yn yr Alban, neu
- (d) ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol’.

**Gwenda Thomas** **33**

Section 23, page 19, line 14, leave out subsection (5).

Adran 23, tudalen 19, llinell 15, hepgorer is-adran (5).

**Gwenda Thomas** **34**

Section 24, page 19, line 19, after ‘area’ at the second place where it appears, insert –

‘

(but see subsection (4))’.

Adran 24, tudalen 19, llinell 20, ar ôl ‘ardal’ yn yr ail le y mae’n ymddangos, mewnosoder –

‘

(ond gweler is-adran (4))’.

**Gwenda Thomas** **292**

Section 24, page 19, line 26, leave out ‘(see Part 6 for provision about looked after children)’ and insert –

‘

- (b) a local authority in England,
- (c) a local authority in Scotland, or
- (d) a Health and Social Care trust’.

Adran 24, tudalen 19, llinell 27, hepgorer ‘y gofelir amdano gan awdurdod lleol (i weld y ddarpariaeth ynghylch plant y gofelir amdanynt gweler Rhan 6)’ a mewnosoder –

‘sy’n derbyn gofal gan –

- (a) awdurdod lleol,
- (b) awdurdod lleol yn Lloegr,
- (c) awdurdod lleol yn yr Alban, neu
- (d) ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol’.

**William Graham** **253**

To insert a new section –

‘( ) **Carers: strategy**

- (1) A local authority and a Local Health Board must jointly prepare and publish a strategy

setting out how they will jointly or separately –

- (a) provide appropriate information and advice to carers,
  - (b) ensure that, where it falls to a local authority or Local Health Board to decide what services (if any) are to be provided to the carer or the person cared for, the carer is consulted before that decision is made, and
  - (c) ensure that the local authority or Local Health Board consults carers before it makes decisions of a general nature regarding the provision of services to or for carers and the persons they care for.
- (2) Each local authority and Local Health Board responsible under subsection (1) for the preparation and publication of a strategy must implement the strategy.’.

I fewnosod adran newydd –

**‘(1) Gofalwyr: strategaeth**

- (1) Rhaid i awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol baratoi a chyhoeddi strategaeth ar y cyd yn nodi sut y byddant, ar y cyd neu ar wahân –
  - (a) yn darparu gwybodaeth a chynghor priodol i ofalwyr,
  - (b) yn sicrhau, pan fo awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am benderfynu pa wasanaethau (os o gwbl) sydd i’w darparu i’r gofalwr neu’r person y gofelir amdano, yr ymgynghorir â’r gofalwr cyn i’r penderfyniad hwnnw gael ei wneud, ac
  - (c) yn sicrhau bod yr awdurdod lleol neu’r Bwrdd Iechyd Lleol yn ymgynghori â gofalwyr cyn gwneud penderfyniadau cyffredinol ynghylch darparu gwasanaethau i neu ar gyfer gofalwyr a’r personau y maent yn gofalu amdanynt.
- (2) Rhaid i bob awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol sy’n gyfrifol am baratoi a chyhoeddi strategaeth o dan is-adran (1) roi’r strategaeth ar waith.’.

**Gwenda Thomas**

35

Section 26, page 20, line 13, after ‘a’, insert ‘disabled’.

Adran 26, tudalen 20, llinell 15, ar ôl ‘blentyn’, mewnosoder ‘anabl’.

**Gwenda Thomas**

36

Section 27, page 21, line 21, after ‘a’, insert ‘disabled’.

Adran 27, tudalen 21, llinell 22, ar ôl ‘blentyn’, mewnosoder ‘anabl’.

**Gwenda Thomas**

37

Section 29, page 22, line 16, leave out –

- (a) ‘an adult who is –
  - (i) ordinarily resident in the local authority’s area, or
  - (ii) of no settled residence and within the authority’s area, or



- (b) a child within the authority's',

And insert—

- ( ) 'within the local authority's area, or  
( ) ordinarily resident in the authority's area, but outside its'.

Adran 29, tudalen 22, hepgorer llinellau 18 hyd at 21 a mewnosoder—

- '( ) o fewn ardal yr awdurdod lleol, neu  
( ) yn preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod, ond y tu allan i'w ardal.'

**Elin Jones**

478

To insert a new section—

**'( ) Meeting needs: linguistic choice**

A local authority must, whenever practicable, carry out its functions under this Part in accordance with the linguistic preference of the adult, child or carer concerned.'

*An amendment relating to the promotion of Welsh language service provision.*

I fewnosod adran newydd—

**'( ) Diwallu anghenion: dewis ieithyddol**

Rhaid i awdurdod lleol, pa bryd bynnag y bydd yn ymarferol, gyflawni ei swyddogaethau o dan y Rhan hon yn unol â dewis ieithyddol yr oedolyn, y plentyn neu'r gofalwr o dan sylw.'

*Gwelliant ynghylch hyrwyddo'r gwasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg.*

**Elin Jones**

479

Section 31, page 23, line 10, leave out 'not meet a person's needs for care and support (including a carer's needs for support) under sections 21 to 29 by providing or arranging for the provision of a service or facility which is required to be provided under the National Health Service (Wales) Act 2006 or the National Health Service Act 2006, unless' and insert 'meet a person's needs for care and support (including a carer's needs for support) under sections 21 to 29 by providing or arranging for the provision of a service or facility which is required to be provided under the National Health Services (Wales) Act 2006 or the National Health Service Act 2006, where'.

*An amendment with the aim of removing any potential barriers local authorities may face in employing registered nurses to meet a person's needs for care and support under sections 21 to 29.*

Adran 31, tudalen 23, llinell 10, hepgorer 'Ni chaiff awdurdod lleol ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth (gan gynnwys anghenion gofalwr am gymorth) o dan adrannau 21 i 29 drwy ddarparu neu drwy drefnu i ddarparu gwasanaeth neu gyfleuster y mae'n ofynnol ei ddarparu o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 neu Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006, oni bai' a mewnosoder 'Caiff awdurdod lleol ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth (gan gynnwys anghenion gofalwr am gymorth) o dan adrannau 21 i 29 drwy ddarparu neu drwy drefnu i ddarparu gwasanaeth neu gyfleuster y mae'n ofynnol ei ddarparu o dan

Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 neu Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006, lle’.

*Gwelliant sydd â’r nod o ddileu unrhyw rwystrau posibl y gallai awdurdodau lleol eu hwynebu wrth gyflogi nyrsys cofrestredig i ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth o dan adrannau 21 i 29.*

**Gwenda Thomas**

**129**

Section 31, page 23, line 12, leave out ‘the National Health Service (Wales) Act 2006 or the National Health Service Act 2006’ and insert ‘a health enactment’.

Adran 31, tudalen 23, llinell 12, hepgorer ‘Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 neu Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006’ a mewnosoder ‘ddeddfiad iechyd’.

**Elin Jones**

**480**

Section 31, page 23, line 15, leave out ‘not secure services or facilities for a person under section 6 (preventative services) that are required to be provided under the National Health Service (Wales) Act 2006 or the National Health Service Act 2006, unless’ and insert ‘secure services or facilities for a person under section 6 (preventative services) that are required to be provided under the National Health Services (Wales) Act 2006 or the National Health Service Act 2006, where’.

*An amendment with the aim of removing any potential barriers local authorities may face in employing registered nurses to meet a person’s needs for care and support under sections 21 to 29.*

Adran 31, tudalen 23, llinell 16, hepgorer ‘Ni chaiff awdurdod lleol sicrhau gwasanaethau neu gyfleusterau i berson o dan adran 6 (gwasanaethau ataliol) y mae’n ofynnol eu darparu o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 neu Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006, oni bai’ a mewnosoder ‘Caiff awdurdod lleol sicrhau gwasanaethau neu gyfleusterau i berson o dan adran 6 (gwasanaethau ataliol) y mae’n ofynnol eu darparu o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 neu Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006, lle’.

*Gwelliant sydd â’r nod o ddileu unrhyw rwystrau posibl y gallai awdurdodau lleol eu hwynebu wrth gyflogi nyrsys cofrestredig i ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth o dan adrannau 21 i 29.*

**Gwenda Thomas**

**130**

Section 31, page 23, line 16, leave out ‘the National Health Service (Wales) Act 2006 or the National Health Service Act 2006’ and insert ‘a health enactment’.

Adran 31, tudalen 23, llinell 17, hepgorer ‘Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 neu Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006’ a mewnosoder ‘ddeddfiad iechyd’.

**Gwenda Thomas**

**131**

Section 31, page 23, line 36, after ‘care’, insert ‘by a registered nurse’.

Adran 31, tudalen 23, llinell 37, ar ôl ‘nyrsio’, mewnosoder ‘gan nyrs gofrestredig’.

**Gwenda Thomas** 132

Section 31, page 23, line 38, leave out ‘the Local Health Board for the area in which the accommodation is provided’ and insert ‘whichever health body regulations require’.

Adran 31, tudalen 23, llinell 38, hepgorer ‘y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer yr ardal y mae’r llety’n cael ei ddarparu ynddi’ a mewnosoder ‘ba gorff iechyd bynnag sy’n ofynnol o dan reoliadau’.

**Gwenda Thomas** 133

Section 31, page 24, line 5, leave out ‘either a Local Health Board or an NHS Trust’ and insert ‘a health body’.

Adran 31, tudalen 24, llinell 6, hepgorer ‘ac naill ai Bwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth GIG’ a mewnosoder ‘a chorff iechyd’.

**Gwenda Thomas** 134

Section 31, page 24, line 6, after ‘service’, insert ‘or facility’.

Adran 31, tudalen 24, llinell 7, ar ôl ‘gwasanaeth’ yn y lle cyntaf y mae’n ymddangos, mewnosoder ‘neu gyfleuster’.

**Gwenda Thomas** 135

Section 31, page 24, line 7, leave out ‘the National Health Service Act (Wales) 2006 or the National Health Service Act 2006’ and insert ‘a health enactment’.

Adran 31, tudalen 24, llinell 7, hepgorer ‘Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 neu Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006’ a mewnosoder ‘deddfiad iechyd’.

**Gwenda Thomas** 136

Section 31, page 24, at the beginning of line 14, insert –

‘In this section –

a “health body” (“*corff iechyd*”) means –

- (a) a Local Health Board;
- (b) a clinical commissioning group;
- (c) the National Health Service Commissioning Board;
- (d) a Health Board constituted under section 2 of the National Health Service (Scotland) Act 1978;
- (e) a Special Health Board constituted under that section;
- (f) a Health and Social Care trust;

a “health enactment” (“*deddfiad iechyd*”) means –

- (a) the National Health Service (Wales) Act 2006;
- (b) the National Health Service Act 2006;
- (c) the National Health Service (Scotland) Act 1978;

- (d) the Health and Personal Social Services (Northern Ireland) Order 1972 (S.I. 1972/1265 (N.I. 14));
- (e) the Health and Social Care (Reform) Act (Northern Ireland) 2009;’.

Adran 31, tudalen 24, ar ddechrau llinell 15, mewnosoder –

‘Yn yr adran hon –

ystyr “corff iechyd” (“*health body*”) yw –

- (a) Bwrdd Iechyd Lleol;
- (b) grŵp comisiynu clinigol;
- (c) Bwrdd Comisiynu’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol;
- (d) Bwrdd Iechyd a gyfansoddwyd o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978;
- (e) Bwrdd Iechyd Arbennig a gyfansoddwyd o dan yr adran honno;
- (f) ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol;

ystyr “deddfiad iechyd” (“*health enactment*”) yw –

- (a) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;
- (b) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006;
- (c) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978;
- (d) Gorchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1972 (O.S. 1972/1265 (N.I. 14));
- (e) Deddf (Diwygio) Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon) 2009;’.

## **William Graham**

75

To insert a new section –

### **‘() Duty to promote direct payments**

A local authority must promote the use of direct payments.’.

I fewnosod adran newydd –

### **‘() Dyletswydd i hyrwyddo taliadau uniongyrchol**

Rhaid i awdurdod lleol hyrwyddo’r defnydd o daliadau uniongyrchol.’.

## **Lindsay Whittle**

468

Section 34, page 25, line 10, leave out ‘towards the cost of meeting’ and insert ‘as a means of meeting the cost of’.

Adran 34, tudalen 25, llinell 11, hepgorer ‘tuag at y gost o ddiwallu’ a mewnosoder ‘fel ffordd o dalu cost’.

**William Graham**

76

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Kirsty Williams**

Section 34, page 25, leave out line 20.

*This amendment will remove local authorities' discretion to decide whether to provide direct payments.*

Adran 34, tudalen 25, hepgorer llinell 21.

*Bydd y gwelliant hwn yn dileu disgresiwn awdurdodau lleol i benderfynu a ddylid darparu taliadau uniongyrchol.*

**William Graham**

77

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Kirsty Williams, Lindsay Whittle**

Section 34, page 25, leave out line 30.

*This amendment will remove local authorities' discretion to decide whether to provide direct payments.*

Adran 34, tudalen 25, hepgorer llinell 31.

*Bydd y gwelliant hwn yn dileu disgresiwn awdurdodau lleol i benderfynu a ddylid darparu taliadau uniongyrchol.*

**Lindsay Whittle**

469

Section 34, page 26, after line 14, insert –

- ‘(8) Regulations under this section must not provide for the making of direct payments as the sole means of meeting the cost of an adult’s needs for care and support under sections 21 and 22.’

Adran 34, tudalen 26, ar ôl llinell 17, mewnosoder –

- ‘(8) Ni chaniateir i reoliadau o dan yr adran hon ddarparu mai taliadau uniongyrchol yw’r unig ffordd o dalu cost anghenion oedolyn am ofal a chymorth o dan adrannau 21 a 22.’

**Gwenda Thomas**

137

Section 37, page 27, line 18, leave out ‘sections 34, 35 and’ and insert ‘section 34, 35 or’.

Adran 37, tudalen 27, llinell 19, hepgorer ‘adrannau 34, 35 a’ a mewnosoder ‘adran 34, 35 neu’.

**Gwenda Thomas**

138

Section 37, page 28, line 37, leave out ‘sections 34, 35 and’ and insert ‘section 34, 35 or’.

Adran 37, tudalen 28, llinell 39, hepgorer ‘adrannau 34, 35 a’ a mewnosoder ‘adran 34, 35 neu’.

**Gwenda Thomas** 139

Section 37, page 29, after line 6, insert –

- ‘() Regulations under section 34, 35 or 36 must require a local authority to take specified steps to enable relevant persons to make informed choices about the use of direct payments.
- () In subsection (*first subsection to be inserted by amendment 139*) “relevant persons” means persons whose consent must be obtained to the making of direct payments under regulations made under section 34, 35 or 36.’.

Adran 37, tudalen 29, ar ôl llinell 6, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i reoliadau o dan adran 34, 35 neu 36 ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gymryd camau penodedig i alluogi personau perthnasol i wneud dewisiadau deallus ynghylch y defnydd o daliadau uniongyrchol.
- () Yn is-adran (*yr is-adran cyntaf sy’n cael ei fewnosod gan welliant 139*) ystyr “personau perthnasol” yw personau y mae rhaid cael eu cydsyniad i wneud taliadau uniongyrchol o dan reoliadau a wneir o dan adran 34, 35 neu 36.’.

**Gwenda Thomas** 38

Section 37, page 29, line 7, leave out subsection (5).

Adran 37, tudalen 29, llinell 7, hepgorer is-adran (5).

**Gwenda Thomas** 140

Section 37, page 29, at the beginning of line 31, insert ‘made’.

Adran 37, tudalen 29, llinell 32, ar ôl ‘reoliadau’, mewnosoder ‘a wneir’.

**Gwenda Thomas** 141

Section 37, page 29, line 31, after ‘support’, insert ‘(or, in the case of a carer, support)’.

Adran 37, tudalen 29, llinell 33, ar ôl ‘chymorth’, mewnosoder ‘(neu, yn achos gofalwr, gymorth)’.

**Gwenda Thomas** 142

Section 37, page 29, line 33, after ‘support’, insert ‘(or, in the case of a carer, support)’.

Adran 37, tudalen 29, llinell 35, ar ôl ‘chymorth’, mewnosoder ‘(neu, yn achos gofalwr, gymorth)’.

**Elin Jones** 232

To insert a new section –

‘() **Health direct payments for health care**

- (1) Where a person’s need for care and support requires a service or facility which is required to be provided by a Local Health Board in the exercise of its functions under the National Health Service (Wales) Act 2006, a Local Health Board may, for the purpose of

securing the provision to the person of the service or facility, make payments, with the person's consent, to the person or to a person nominated by the person.

- (2) If regulations so provide, a Local Health Board may, for the purpose of securing the provision for a person of services that the Board must provide under section 117 of the Mental Health Act 1983 (after-care), make payments, with the person's consent, to the person or to a person nominated by the person.
- (3) A payment under subsection (1) or (2) or under regulations under section (*section to be inserted by amendment 233*) is referred to in this section as a "health direct payment".

I fewnosod adran newydd –

**'(1) Taliadau iechyd uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd**

- (1) Pan fo angen person am ofal a chymorth yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael y gwasanaeth neu'r cyfleuster y mae'n ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol ei ddarparu wrth arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, caiff Bwrdd Iechyd Lleol, at ddiben sicrhau bod y gwasanaeth neu'r cyfleuster yn cael ei ddarparu i'r person, wneud taliadau, gyda chydsyniad y person, i'r person neu i berson a enwebir gan y person.
- (2) Os yw rheoliadau yn darparu hynny, caiff Bwrdd Iechyd Lleol, at ddiben sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu i berson y mae'n rhaid i'r Bwrdd eu darparu o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal), wneud taliadau, gyda chydsyniad y person, i'r person neu i berson a enwebir gan y person.
- (3) Cyfeirir at daliad o dan is-adran (1) neu (2) neu o dan reoliadau o dan adran (*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 233*) yn yr adran hon fel "taliad iechyd uniongyrchol".

**Elin Jones**

**233**

To insert a new section –

**'(1) Regulations about health direct payments**

- (1) The Welsh Ministers may make regulations about health direct payments.
- (2) The regulations may in particular make provision –
  - (a) as to circumstances in which, and descriptions of persons and services in respect of which, health direct payments may or must be made;
  - (b) as to circumstances in which health direct payments may or must be made to a person nominated by the person;
  - (c) as to the making of health direct payments (and, in particular, as to persons to whom payments may or must be made) where the person lacks capacity to consent to the making of the payments;
  - (d) as to conditions that the Local Health Board must comply with before, after or at the time of making a health direct payment;
  - (e) as to conditions that the person or (if different) the payee may or must be required to comply with before, after, or at the time when a health direct payment is made;
  - (f) as to the amount of any health direct payment or how it is to be calculated;

- (g) as to circumstances in which the Local Health Board may or must stop making health direct payments;
  - (h) as to circumstances in which the Local Health Board may or must require all or part of a health direct payment to be repaid, by the payee or otherwise;
  - (i) as to monitoring of the making of health direct payments, of their use by the payee, or of services which they are used to secure;
  - (j) as to arrangements to be made by the Local Health Board for providing persons, payees or their representatives with information, advice or other support in connection with health direct payments;
  - (k) for such support to be treated to any prescribed extent as a service in respect of which health direct payments may be made.
- (3) If the regulations make provision in the case of a person who lacks capacity to consent to health direct payments being made, they may apply that provision, or make corresponding provision, with or without modifications, in the case of a person who has lacked that capacity but no longer does so (whether because of fluctuating capacity, or regaining or gaining capacity).
- (4) The regulations may provide for a sum which must be repaid to the Local Health Board by virtue of a condition or other requirement imposed by or under the regulations to be recoverable as a debt due to the Local Health Board.
- (5) The regulations may make provision –
- (a) for a service in respect of which a health direct payment has been made under section (*section to be inserted by amendment 232*) to be regarded, only to such extent and subject to such conditions as may be prescribed, as provided or arranged for by the Local Health Board;
  - (b) displacing functions or obligations of a Local Health Board with respect to the provision of after-care services under section 117 of the Mental Health Act 1983, only to such extent and subject to such conditions as may be prescribed.
- (6) In this section –
- (a) “service” includes anything in respect of which health direct payments may be made;
  - (b) references to a person lacking capacity are references to a person lacking capacity within the meaning of the Mental Capacity Act 2005.’.

I fewnosod adran newydd –

**‘(1) Rheoliadau ynghylch taliadau iechyd uniongyrchol**

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch taliadau iechyd uniongyrchol.
- (2) Caiff y rheoliadau, yn benodol, wneud darpariaeth –
  - (a) ynghylch yr amgylchiadau y caniateir gwneud, neu y mae’n rhaid gwneud, taliadau iechyd uniongyrchol, a’r disgrifiadau o bersonau a gwasanaethau mewn cysylltiad â hwy;
  - (b) ynghylch yr amgylchiadau y caniateir gwneud, neu y mae’n rhaid gwneud, taliadau iechyd uniongyrchol i berson a enwebir gan y person;



- (c) ynghylch gwneud taliadau iechyd uniongyrchol (ac, yn benodol, ynghylch y personau y caniatier gwneud, neu y mae'n rhaid gwneud, taliadau iddynt) pan nad oes gan y person alluedd i gydsynio i'r taliadau gael eu gwneud;
  - (d) ynghylch yr amodau y mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol gydymffurfio â hwy pan wneir taliad iechyd uniongyrchol, neu cyn neu ar ôl gwneud y taliad;
  - (e) ynghylch yr amodau y caiff neu y mae'n rhaid i'r person neu (os yn wahanol) y talai, gydymffurfio â hwy pan wneir taliad iechyd uniongyrchol, neu cyn neu ar ôl gwneud y taliad;
  - (f) ynghylch swm unrhyw daliad iechyd uniongyrchol neu sut y bwriedir ei gyfrifo;
  - (g) ynghylch yr amgylchiadau y caiff, neu y mae'n rhaid i, Fwrdd Iechyd Lleol roi'r gorau i wneud taliadau iechyd uniongyrchol;
  - (h) ynghylch yr amgylchiadau y caiff, neu y mae'n rhaid i, Fwrdd Iechyd Lleol ei gwneud yn ofynnol i gyfanswm taliad iechyd uniongyrchol, neu ran ohono, gael ei ad-dalu, gan y talai neu fel arall;
  - (i) ynghylch monitro'r broses o wneud taliadau iechyd uniongyrchol, eu defnydd gan y talai, neu'r gwasanaethau y mae'r taliadau yn cael eu defnyddio i'w sicrhau;
  - (j) ynghylch y trefniadau sydd i'w gwneud gan y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth arall mewn cysylltiad â thaliadau iechyd uniongyrchol i bersonau, taleion neu eu cynrychiolwyr;
  - (k) i drin cymorth o'r fath i unrhyw raddau rhagnodedig fel gwasanaeth y gellir gwneud taliadau uniongyrchol ar ei gyfer.
- (3) Os yw'r rheoliadau'n gwneud darpariaeth yn achos person nad oes ganddo'r galluedd i gydsynio i daliadau iechyd uniongyrchol gael eu gwneud, cânt gymhwyso'r ddarpariaeth honno, neu wneud darpariaeth gyfatebol, gydag addasiadau neu hebddynt, yn achos person nad oedd ganddo'r galluedd hwnnw yn flaenorol, ond y mae ganddo'r galluedd hwnnw bellach (naill ai oherwydd galluedd sy'n amrywio, neu oherwydd bod galluedd wedi'i ennill neu ei adennill).
- (4) Caiff y rheoliadau ddarparu ar gyfer swm y mae'n rhaid ei ad-dalu i'r Bwrdd Iechyd Lleol yn rhinwedd amod neu ofyniad arall a osodir gan y rheoliadau, neu oddi tanynt, y gellir ei adennill fel dyled sy'n ddyledus i'r Bwrdd Iechyd Lleol.
- (5) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth—
- (a) i wasanaeth y gwnaed taliad iechyd uniongyrchol ar ei gyfer o dan adran (*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 232*) gael ei ystyried, dim ond i'r graddau y gellir ei ragnodi ac yn unol â'r amodau y gellir eu rhagnodi, fel gwasanaeth a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu a drefnir ganddo;
  - (b) i ddisodli swyddogaethau neu rwymedigaethau Bwrdd Iechyd Lleol mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, dim ond i'r graddau y gellir eu rhagnodi ac yn unol â'r amodau y gellir eu rhagnodi.
- (6) Yn yr adran hon—
- (a) mae "gwasanaeth" yn cynnwys unrhyw beth y caniateir gwneud taliadau iechyd uniongyrchol ar ei gyfer;

- (b) mae cyfeiriadau at berson nad oes ganddo alluedd yn gyfeiriadau at berson nad oes ganddo alluedd o fewn ystyr Deddf Galluedd Meddwl 2005.’.

**Lindsay Whittle** 409

Section 38, page 30, after line 2, insert –

- ‘() A local authority preparing a care and support plan under subsection (1) or a support plan under subsection (2), must ascertain through engagement with the person or carer the outcomes which the person or carer wishes to achieve.’.

Adran 38, tudalen 30, ar ôl llinell 2, mewnosoder –

- ‘() Wrth baratoi cynllun gofal a chymorth o dan is-adran (1) neu gynllun cymorth o dan is-adran (2), rhaid i awdurdod lleol ganfod drwy ymgysylltu â’r person neu’r gofalwr y canlyniadau y mae’r person neu’r gofalwr yn dymuno eu sicrhau.’.

**Lindsay Whittle** 410

Section 38, page 30, line 6, after ‘contain’, insert ‘, including but not limited to the outcomes which the person or carer wishes to achieve’.

Adran 38, tudalen 30, llinell 7, ar ôl ‘gynnwys’, mewnosoder ‘, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i’r canlyniadau y mae’r person neu’r gofalwr yn dymuno eu sicrhau’.

**Gwenda Thomas** 426

Section 38, page 30, line 7, leave out ‘review’ and insert ‘the review and revision’.

Adran 38, tudalen 30, llinell 8, ar ôl ‘adolygu’, mewnosoder ‘a diwygio’.

**Lindsay Whittle** 411

Section 38, page 30, after line 7, insert –

- ‘(d) appeals against plans, including but not limited to the failure of the local authority to engage with the person or carer under subsection (*subsection to be inserted by amendment 409*).’.

Adran 38, tudalen 30, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

- ‘(d) apelau yn erbyn cynlluniau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fethiant yr awdurdod lleol i ymgysylltu â’r person neu’r gofalwr o dan is-adran (*yr is-adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 409*).’.

**Lindsay Whittle** 412

Section 38, page 30, after line 7, insert –

- ‘(d) the provision of advocacy services.’.

Adran 38, tudalen 30, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

- ‘(d) darparu gwasanaethau eirioli.’.

**Gwenda Thomas**

**427**

Section 38, page 30, line 9, leave out 'or review a plan under this section at the same time as it or another body is preparing or reviewing' and insert ', review or revise a plan under this section at the same time as it or another body is preparing, reviewing or revising'.

Adran 38, tudalen 30, llinell 10, hepgorer 'neu adolygu cynllun o dan yr adran hon yr un pryd ag y mae ef neu gorff arall yn llunio neu'n adolygu' a mewnosoder ', adolygu neu ddiwygio cynllun o dan yr adran hon yr un pryd ag y mae ef neu gorff arall yn llunio, adolygu neu ddiwygio'.

**William Graham**

**182**

Section 38, page 30, after line 16, insert—

- (7) In preparing or revising a care and support plan under this section for an adult the local authority must involve—
- (a) the adult for whom it is being prepared,
  - (b) any carer that the adult has, and
  - (c) any person whom the adult asks the authority to involve or, where the adult lacks capacity to ask to the authority to do that, any person who appears to the authority to be interested in the adult's welfare.
- (8) In preparing or revising a care and support plan under this section for a child the local authority must involve—
- (a) the child for whom it is being prepared, to the extent that it is appropriate having regard to the child's age and understanding, and
  - (b) the persons with parental responsibility for the child.
- (9) In preparing or revising a support plan under this section, the local authority must in the case of a carer who is a child involve—
- (a) the carer for whom it is being prepared to the extent that it is appropriate having regard to the child's age and understanding,
  - (b) the persons with parental responsibility for the carer, and
  - (c) the adult needing care, if the carer asks the authority to do so, or where the carer lacks capacity to ask the authority to do so, if a person with parental responsibility for the carer asks the authority to do so.
- (10) In preparing or revising a support plan under this section, the local authority must in the case of a carer who is an adult involve—
- (a) the carer for whom it is being prepared,
  - (b) the adult needing care, if the carer asks the authority to do so, and
  - (c) any other person whom the carer asks the authority to involve.'

Adran 38, tudalen 30, ar ôl llinell 17, mewnosoder—

- (7) Wrth lunio neu ddiwygio cynllun gofal a chymorth o dan yr adran hon ar gyfer oedolyn, rhaid i'r awdurdod lleol gynnwys—
- (a) yr oedolyn y'i paratoir ar ei gyfer,
  - (b) unrhyw ofalwr sydd gan yr oedolyn, ac

- (c) unrhyw berson y mae'r oedolyn yn gofyn i'r awdurdod ei gynnwys neu, pan nad oes gan yr oedolyn alluedd i ofyn i'r awdurdod wneud hynny, unrhyw berson y mae'n ymddangos i'r awdurdod sydd â diddordeb yn llesiant yr oedolyn.
- (8) Wrth lunio neu ddiwygio cynllun gofal a chymorth o dan yr adran hon ar gyfer plentyn, rhaid i'r awdurdod lleol gynnwys—
  - (a) y plentyn y'i paratoir ar ei gyfer, i'r graddau y bo hynny'n briodol gan roi sylw i oedran a dealltwriaeth y plentyn, a
  - (b) y personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.
- (9) Wrth lunio neu ddiwygio cynllun cymorth o dan yr adran hon, rhaid i awdurdod lleol, yn achos gofalwr sy'n blentyn, gynnwys—
  - (a) y gofalwr y'i paratoir ar ei gyfer i'r graddau y bo hynny'n briodol gan roi sylw i oedran a dealltwriaeth y plentyn,
  - (b) y personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, ac
  - (c) yr oedolyn y mae arno angen gofal, os yw'r gofalwr yn gofyn i'r awdurdod wneud hynny neu, pan nad oes gan y gofalwr alluedd i ofyn i'r awdurdod wneud hynny, os yw'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y gofalwr yn gofyn i'r awdurdod wneud hynny.
- (10) Wrth lunio neu ddiwygio cynllun cymorth o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod lleol, yn achos gofalwr sy'n oedolyn, gynnwys—
  - (a) y gofalwr y'i paratoir ar ei gyfer,
  - (b) yr oedolyn y mae arno angen gofal, os yw'r gofalwr yn gofyn i'r awdurdod wneud hynny, ac
  - (c) unrhyw bersonau eraill y mae'r gofalwr yn gofyn i'r awdurdod eu cynnwys.'

**Lindsay Whittle**

**413**

Section 38, page 30, after line 16, insert—

- '(7) In this section "advocacy services" are services providing assistance by way of representation or otherwise to individuals to—
  - (a) participate in a review under paragraph (4)(c);
  - (b) make an appeal under paragraph (4)(*paragraph to be inserted by amendment 411*).'

Adran 38, tudalen 30, ar ôl llinell 17, mewnosoder—

- '(7) In this section "advocacy services" are services providing assistance by way of representation or otherwise to individuals to—
  - (a) participate in a review under paragraph (4)(c);
  - (b) make an appeal under paragraph (4)(*y paragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 411*).'

**Gwenda Thomas** 428

Section 39, page 30, line 21, leave out 'and review' and insert ', review or revision'.

Adran 39, tudalen 30, llinell 22, hepgorer 'ac adolygu' a mewnosoder ', adolygu neu ddiwygio'.

**Gwenda Thomas** 429

Section 39, page 30, line 23, leave out 'or reviewed' and insert ', reviewed or revised'.

Adran 39, tudalen 30, llinell 24, hepgorer 'neu eu hadolygu' a mewnosoder ', eu hadolygu neu eu diwygio'.

**Gwenda Thomas** 430

Section 39, page 30, line 25, leave out 'or review' and insert ', review or revision'.

Adran 39, tudalen 30, llinell 27, hepgorer 'neu adolygu' a mewnosoder ', adolygu neu ddiwygio'.

**William Graham** 108

Section 40, page 31, at the beginning of line 9, insert 'within 30 days (or such longer period as may be agreed between it and the receiving authority)'.

Adran 40, tudalen 31, llinell 9, hepgorer 'darparu' a mewnosoder 'o fewn 30 diwrnod (neu unrhyw gyfnod hwy y cytunir arno rhyngddo a'r awdurdod derbyn) ddarparu'.

**William Graham** 109

Section 40, page 31, at the beginning of line 11, insert 'within 30 days (or such longer period as may be agreed between it and the receiving authority)'.

Adran 40, tudalen 31, llinell 11, hepgorer 'darparu' a mewnosoder 'o fewn 30 diwrnod (neu unrhyw gyfnod hwy y cytunir arno rhyngddo a'r awdurdod derbyn) ddarparu'.

**William Graham** 126

Section 40, page 31, after line 28, insert—

'() In carrying out an assessment under subsection (2)(d), the receiving authority must have regard to the care and support plan provided under subsection (1)(b).'

Adran 40, tudalen 31, ar ôl llinell 29, mewnosoder—

'() Wrth gyflawni asesiad o dan is-adran (2)(d), rhaid i'r awdurdod derbyn roi sylw i'r cynllun gofal a chymorth a ddarperir o dan is-adran (1)(b).'

**William Graham**

**110**

To insert a new section –

**‘(1) Portability of support: carers**

- (1) Where a local authority (“the sending authority”) is notified by or on behalf of a person (whether or not by the receiving authority (see subsection (2)) for whom it has a duty under section 26 or 27 to meet needs for support that the person is going to move to the area of another local authority (“the receiving authority”), and it is satisfied that the move is likely to happen, it must –
  - (a) notify the receiving authority that it is so satisfied,
  - (b) within 30 days (or such longer period as may be agreed between it and the receiving authority) provide the receiving authority with a copy of the support plan prepared for the person, and
  - (c) within 30 days (or such longer period as may be agreed between it and the receiving authority) provide the receiving authority with such other information relating to the person and, such other information relating to the person as the receiving authority may request.
- (2) Where the receiving authority is notified by or on behalf of a person (whether or not by the sending authority) for whom the sending authority has a duty under section 26 or 27 to meet needs for support that the person is going to move to the receiving authority’s area, and the receiving authority is satisfied that the move is likely to happen, it must –
  - (a) notify the sending authority that it is so satisfied,
  - (b) provide the person with such information as it considers appropriate,
  - (c) if the person is a child, provide the persons with parental responsibility for the child with such information as it considers appropriate, and
  - (d) assess whether the person has needs for support and, if the person does, what those needs are, having regard in particular to any change in the person’s needs for support arising from the move.
- (3) Part 3 applies to an assessment under subsection (2)(d) as it applies to a needs assessment under Part 3.
- (4) If, on the day the person moves to its area, the receiving authority has yet to carry out the assessment under subsection (2)(d), or has done so but has yet to carry out the other steps required by this Part or Part 3, it must meet the person’s needs for support in accordance with the support plan prepared by the sending authority, in so far as that is reasonably practicable.
- (5) The receiving authority is subject to the duty under subsection (4) until it has –
  - (a) carried out the assessment required by subsection (2)(d), and
  - (b) taken the other steps required under this Part or Part 5.
- (6) Regulations may –
  - (a) specify steps which a local authority must take for the purpose of being satisfied as mentioned in subsections (1) and (2);

- (b) specify matters to which a receiving authority must have regard in deciding how to comply with the duty under subsection (4);
  - (c) specify cases in which the duties under subsection (1), (2) or (4) do not apply.
- (7) A reference in this section to moving to an area is a reference to moving to that area with a view to becoming ordinarily resident there.’.

I fewnosod adran newydd –

**‘(1) Hygludedd cymorth: gofalwyr**

- (1) Pan fo awdurdod lleol (“yr awdurdod anfon”) yn cael ei hysbysu gan neu ar ran person (p’un ai gan yr awdurdod derbyn ai peidio (gweler is-adran (2)) y mae arno ddyletswydd o dan adran 26 neu 27 i ddiwallu ei anghenion am gymorth, fod y person hwnnw’n mynd i symud i ardal awdurdod lleol arall (“yr awdurdod derbyn”), ac y mae’r awdurdod wedi ei fodloni bod y symud yn debyg o ddigwydd, rhaid iddo –
- (a) hysbysu’r awdurdod derbyn ei fod wedi ei fodloni felly,
  - (b) o fewn 30 diwrnod (neu unrhyw gyfnod hwy y cytunir arno rhyngddo a’r awdurdod derbyn) ddarparu i’r awdurdod derbyn gopi o’r cynllun cymorth sydd wedi ei lunio ar gyfer y person, ac
  - (c) o fewn 30 diwrnod (neu unrhyw gyfnod hwy y cytunir arno rhyngddo a’r awdurdod derbyn) ddarparu i’r awdurdod derbyn unrhyw wybodaeth arall sy’n ymwneud a’r person ac unrhyw wybodaeth arall sy’n ymwneud â’r person y bydd yr awdurdod derbyn yn gofyn amdano.
- (2) Pan fo’r awdurdod derbyn yn cael ei hysbysu gan neu ar ran person (p’un ai gan yr awdurdod anfon ai peidio) y mae gan yr awdurdod anfon ddyletswydd o dan adran 26 neu 27 i ddiwallu ei anghenion am gymorth, fod y person yn mynd i symud i ardal yr awdurdod derbyn, a bod yr awdurdod derbyn wedi ei fodloni bod y symud yn debyg o ddigwydd, rhaid iddo –
- (a) hysbysu’r awdurdod anfon ei fod wedi ei fodloni felly,
  - (b) darparu i’r person unrhyw wybodaeth y mae’n barnu ei bod yn briodol,
  - (c) os plentyn yw’r person, darparu i’r personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn unrhyw wybodaeth sy’n briodol ym marn yr awdurdod, a
  - (d) asesu a oes gan y person anghenion am gymorth, ac os oes, beth yw’r anghenion hynny, gan roi sylw penodol i unrhyw newid yn anghenion y person am gymorth sy’n deillio o’r symud.
- (3) Mae Rhan 3 yn gymwys i asesiad o dan is-adran (2)(d) fel y bo’n gymwys i asesiad o anghenion o dan Ran 3.
- (4) Os yw’r awdurdod derbyn, ar y diwrnod y mae’r person yn symud i’w ardal, yn dal heb gyflawni’r asesiad o dan is-adran (2)(d), neu y mae wedi gwneud felly ond y mae’n dal heb gymryd y camau eraill sy’n ofynnol gan y Rhan hon neu Ran 3, rhaid iddo ddiwallu anghenion y person am gymorth yn unol â’r cynllun cymorth a luniwyd gan yr awdurdod anfon, i’r graddau y bydd hynny’n rhesymol ymarferol.
- (5) Mae’r awdurdod derbyn yn ddarostyngedig i’r ddyletswydd o dan is-adran (4) hyd nes y bydd wedi –

- (a) cyflawni'r asesiad sy'n ofynnol gan is-adran (2)(d), a
  - (b) cymryd y camau eraill sy'n ofynnol o dan y Rhan hon neu Ran 5.
- (6) Caiff rheoliadau –
- (a) pennu camau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu cymryd er mwyn cael ei fodloni fel a grybwyllwyd yn is-adrannau (1) a (2);
  - (b) pennu materion y mae'n rhaid i awdurdod derbyn roi sylw iddynt wrth benderfynu sut i gydymffurfio â'r ddyletswydd o dan is-adran (4);
  - (c) pennu achosion pan na fo'r dyletswyddau o dan is-adran (1), (2) neu (4) yn gymwys iddynt.
- (7) Mae cyfeiriad yn yr adran hon at symud i ardal yn cyfeirio at symud i'r ardal honno gyda golwg ar breswyllo fel arfer yno.'

**Gwenda Thomas**

293

Section 43, page 34, line 2, leave out 'sections 45 and' and insert 'section 45 or'.

Adran 43, tudalen 34, llinell 2, hepgorer 'adrannau 45 a' a mewnosoder 'adran 45 neu'.

**Lindsay Whittle**

414

Section 43, page 34, after line 3, insert –

- '(5) A local authority may not require a person to pay a charge to the authority under subsection (1) for the provision of equipment or adaptations under sections 21 to 29 to meet a person's needs.'

Adran 43, tudalen 34, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

- '(5) Ni chaniateir i awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i berson dalu ffi i'r awdurdod o dan is-adran (1) am ddarparu cyfarpar neu addasiadau o dan adrannau 21 i 29 i ddiwallu anghenion person.'

**Gwenda Thomas**

431

Section 44, page 34, line 5, leave out 'specifies' and insert 'describes'.

Adran 44, tudalen 34, llinell 5, hepgorer 'pennu'r' a mewnosoder 'disgrifio'r'.

**William Graham**

98

Section 44, page 34, line 9, leave out subsection (3).

Adran 44, tudalen 34, llinell 10, hepgorer is-adran (3).

**Kirsty Williams**

102

Section 44, page 34, leave out lines 21 to 24.

Adran 44, tudalen 34, hepgorer llinellau 22 hyd at 25.



**Kirsty Williams**

**103**

Section 44, page 34, leave out lines 32 to 37.

Adran 44, tudalen 34, hepgorer llinellau 34 hyd at 39.

**William Graham**

**254**

To insert a new section –

**‘(1) Procedure for regulations under section 45**

- (1) The Welsh Ministers must comply with this section before making regulations under section 45 to provide for proposals about the detail of the exercise of a power to impose a charge under section 43.
- (2) The Welsh Ministers must consult –
  - (a) Local Health Boards,
  - (b) Community Health Councils,
  - (c) local authorities, and
  - (d) such other persons or bodies as appear to represent the interests of persons likely to be affected by the proposals.
- (3) If, following that consultation, the Welsh Ministers wish to proceed with the regulations they must lay before the National Assembly for Wales a document which –
  - (a) explains the proposals,
  - (b) sets the proposals out in the form of draft regulations, and
  - (c) gives details of the consultation under subsection (2).
- (4) No draft of regulations under section 45 to give effect to the proposals (“the final draft regulations”) may be laid before the National Assembly for Wales in accordance with this section until after the expiry of the period of 60 days beginning with the day on which the document relating to the proposals was laid before the National Assembly for Wales under subsection (3).
- (5) In calculating the period mentioned in subsection (4) no account shall be taken of any time during which the National Assembly for Wales is dissolved or is in recess for more than four days.
- (6) In preparing the final draft regulations the Welsh Ministers must consider any representations made during the period mentioned in subsection (4).
- (7) If the final draft regulations are laid before the National Assembly for Wales in accordance with this section the regulations must be accompanied by a statement of the Welsh Ministers giving details of –
  - (a) any representations considered in accordance with subsection (6), and
  - (b) any changes made to the proposals contained in the document laid before the National Assembly for Wales under subsection (3) which are given effect to in the final draft regulations.’.

I fewnosod adran newydd –

**‘( ) Y weithdrefn ar gyfer rheoliadau o dan adran 45**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r adran hon cyn gwneud rheoliadau o dan adran 45 i ddarparu ar gyfer cynigion ynghylch manylion yn ymwneud ag arfer pŵer i osod ffi o dan adran 43.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol –
  - (a) Byrddau Iechyd Lleol,
  - (b) Cyngorau Iechyd Cymuned,
  - (c) awdurdodau lleol, a
  - (d) y personau neu'r cyrff eraill hynny yr ymddengys eu bod yn cynrychioli buddiannau personau yr effeithir arnynt yn ôl pob tebyg gan y cynigion.
- (3) Os bydd Gweinidogion Cymru, yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw, yn dymuno bwrw ymlaen â'r rheoliadau, rhaid iddynt osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddogfen –
  - (a) sy'n esbonio'r cynigion,
  - (b) sy'n gosod y cynigion ar ffurf rheoliadau drafft, ac
  - (c) sy'n rhoi manylion yr ymgynghoriad o dan is-adran (2).
- (4) Ni chaiff unrhyw reoliadau drafft o dan adran 45 i roi effaith i'r cynigion (“y rheoliadau drafft terfynol”) gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r adran hon tan ar ôl i'r cyfnod o 60 diwrnod, sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd y ddogfen ynglŷn â'r cynigion ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (3), ddirwyn i ben.
- (5) Wrth gyfrifo'r cyfnod a grybwyllir yn is-adran (4), rhaid peidio ag ystyried unrhyw amser pryd y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod.
- (6) Wrth baratoi'r rheoliadau drafft terfynol rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod a grybwyllir yn is-adran (4).
- (7) Os caiff y rheoliadau drafft terfynol eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r adran hon rhaid i ddatganiad gan Weinidogion Cymru gyd-fynd â'r rheoliadau sy'n rhoi manylion –
  - (a) unrhyw sylwadau a ystyriwyd yn unol ag is-adran (6), a
  - (b) unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynigion a oedd wedi eu cynnwys yn y ddogfen a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (3) ac y rhoddir effaith iddynt yn y rheoliadau drafft terfynol.’.

**Gwenda Thomas**

**432**

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version Adran 53, tudalen 38, llinell 12, hepgorer 'iddo' a mewnosoder 'i awdurdod lleol,'.

**Kirsty Williams** 104

Section 53, page 38, line 12, leave out 'a person mentioned in subsection (2)' and insert 'an adult'.

Adran 53, tudalen 38, llinell 13, hepgorer 'gyda pherson a grybwyllir yn is-adran (2) a hwnnw'n berson' a mewnosoder 'gydag oedolyn'.

**Kirsty Williams** 105

Section 53, page 38, line 18, leave out subsection (2).

Adran 53, tudalen 38, llinell 18, hepgorer is-adran (2).

**Gwenda Thomas** 433

Section 53, page 39, line 13, leave out 'under' and insert 'by virtue of'.

Adran 53, tudalen 39, llinell 11, hepgorer 'o dan' yn yr ail le mae'n ymddangos a mewnosoder 'yn rhinwedd'.

**William Graham** 69

Page 39, line 32, leave out section 54.

*Prevents charging for information.*

Tudalen 39, llinell 29, hepgorer adran 54.

*Mae'n atal codi ffi am wybodaeth.*

**William Graham** 78

**Gyda chefnogaeth/ Supported by: Kirsty Williams, Lindsay Whittle**

Section 54, page 39, leave out line 34.

*This amendment will prevent local authorities from charging for information, advice or assistance.*

Adran 54, tudalen 39, hepgorer llinell 31.

*Bydd y gwelliant hwn yn atal awdurdodau lleol rhag codi ffi am wybodaeth, cyngor neu gynhorthwy.*

**Gwenda Thomas** 434

Section 54, page 39, line 34, leave out 'information, advice or'.

Adran 54, tudalen 39, llinell 31, hepgorer 'wybodaeth, cyngor neu'.

**Gwenda Thomas** 79A

As an amendment to amendment 79, line 1, leave out 'or assistance'.

Fel gwelliant i welliant 79, llinell 1, hepgorer 'neu gynhorthwy'.

**William Graham**

79

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Kirsty Williams, Lindsay Whittle**

Section 54, page 39, line 36, leave out ‘, information, advice or assistance’.

*This amendment will prevent local authorities from charging for information, advice or assistance.*

Adran 54, tudalen 39, llinell 33, hepgorer ‘, gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy’.

*Bydd y gwelliant hwn yn atal awdurdodau lleol rhag codi ffi am wybodaeth, cyngor neu gynhorthwy.*

**Gwenda Thomas**

80A

As an amendment to amendment 80, line 1, leave out ‘or assistance to which the charge relates’.

Fel gwelliant i welliant 80, llinell 1, hepgorer ‘neu’r cynhorthwy y mae’r ffi yn ymwneud â hwy’.

**William Graham**

80

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Kirsty Williams**

Section 54, page 39, line 39, leave out ‘, information, advice or assistance to which the charge relates’.

*This amendment will prevent local authorities from charging for information, advice or assistance.*

Adran 54, tudalen 39, llinell 36, hepgorer ‘, yr wybodaeth, y cyngor neu’r cynhorthwy y mae’r ffi yn ymwneud â hwy’.

*Bydd y gwelliant hwn yn atal awdurdodau lleol rhag codi ffi am wybodaeth, cyngor neu gynhorthwy.*

**William Graham**

99

Section 54, page 39, after line 39, insert—

‘(c) which enables a charge to be imposed for equipment or adaptations not exceeding £5,000.’.

Adran 54, tudalen 39, ar ôl llinell 37, mewnosoder—

‘(c) sy’n galluogi codi ffi am gyfarpar neu addasiadau nad ydynt yn uwch na £5,000.’.

**William Graham**

255

To insert a new section—

**‘( ) Procedure for regulations under section 54**

- (1) The Welsh Ministers must comply with this section before making regulations under section 54 to provide for proposals about the detail of the exercise of a power to impose a charge under section 54.
- (2) The Welsh Ministers must consult—
  - (a) Local Health Boards,
  - (b) Community Health Councils,
  - (c) local authorities, and

- (d) such other persons or bodies as appear to represent the interests of persons likely to be affected by the proposals.
- (3) If, following that consultation, the Welsh Ministers wish to proceed with the regulations they must lay before the National Assembly for Wales a document which –
  - (a) explains the proposals,
  - (b) sets the proposals out in the form of draft regulations, and
  - (c) gives details of the consultation under subsection (2).
- (4) No draft of regulations under section 54 to give effect to the proposals (“the final draft regulations”) may be laid before the National Assembly for Wales in accordance with this section until after the expiry of the period of 60 days beginning with the day on which the document relating to the proposals was laid before the National Assembly for Wales under subsection (3).
- (5) In calculating the period mentioned in subsection (4) no account shall be taken of any time during which the National Assembly for Wales is dissolved or is in recess for more than four days.
- (6) In preparing the final draft regulations the Welsh Ministers must consider any representations made during the period mentioned in subsection (4).
- (7) If the final draft regulations are laid before the National Assembly for Wales in accordance with this section the regulations must be accompanied by a statement of the Welsh Ministers giving details of –
  - (a) any representations considered in accordance with subsection (6), and
  - (b) any changes made to the proposals contained in the document laid before the National Assembly for Wales under subsection (3) which are given effect to in the final draft regulations.’.

I fewnosod adran newydd –

**‘(1) Y weithdrefn ar gyfer rheoliadau o dan adran 54**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â’r adran hon cyn gwneud rheoliadau o dan adran 54 i ddarparu ar gyfer cynigion ynghylch manylion yn ymwneud ag arfer pŵer i osod ffi o dan adran 54.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r canlynol –
  - (a) Byrddau Iechyd Lleol,
  - (b) Cynghorau Iechyd Cymuned,
  - (c) awdurdodau lleol, a
  - (d) y personau neu’r cyrff eraill hynny yr ymddengys eu bod yn cynrychioli buddiannau personau yr effeithir arnynt yn ôl pob tebyg gan y cynigion.
- (3) Os bydd Gweinidogion Cymru, yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw, yn dymuno bwrw ymlaen â’r rheoliadau, rhaid iddynt osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddogfen –
  - (a) sy’n esbonio’r cynigion,
  - (b) sy’n gosod y cynigion ar ffurf rheoliadau drafft, ac

- (c) sy'n rhoi manylion yr ymgynghoriad o dan is-adran (2).
- (4) Ni chaiff unrhyw reoliadau drafft o dan adran 54 i roi effaith i'r cynigion ("y rheoliadau drafft terfynol") gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r adran hon tan ar ôl i'r cyfnod o 60 diwrnod, sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd y ddogfen ynglŷn â'r cynigion ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (3), ddirwyn i ben.
- (5) Wrth gyfrifo'r cyfnod a grybwyllir yn is-adran (4), rhaid peidio ag ystyried unrhyw amser pryd y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod.
- (6) Wrth baratoi'r rheoliadau drafft terfynol rhaid i Weindogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod a grybwyllir yn is-adran (4).
- (7) Os caiff y rheoliadau drafft terfynol eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r adran hon rhaid i ddatganiad gan Weinidogion Cymru gyd-fynd â'r rheoliadau sy'n rhoi manylion –
- (a) unrhyw sylwadau a ystyriwyd yn unol ag is-adran (6), a
  - (b) unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynigion a oedd wedi eu cynnwys yn y ddogfen a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (3) ac y rhoddir effaith iddynt yn y rheoliadau drafft terfynol.'

**Kirsty Williams**

106

Section 55, page 40, line 22, leave out 'or child aged 16 or 17'.

Adran 55, tudalen 40, llinell 23, hepgorer 'neu blentyn sy'n 16 neu'n 17 oed'.

**Kirsty Williams**

107

Section 55, page 40, line 27, leave out 'or child aged 16 or 17'.

Adran 55, tudalen 40, llinell 28, hepgorer 'neu blentyn sy'n 16 neu'n 17 oed'.

**Elin Jones**

481

Section 57, page 43, after line 2, insert –

- '( ) provide for appeals against the decision of the local authority to require payment under subsection (2).'

*An amendment to provide for an appeals mechanism against the decision of local authorities that charges were deliberately avoided through transfer of assets.*

Adran 57, tudalen 43, ar ôl llinell 2, mewnosoder –

- '( ) darparu ar gyfer apeliadau yn erbyn penderfyniad gan yr awdurdod lleol i'w gwneud yn ofynnol bod taliad yn cael ei wneud o dan is-adran (2).'

*Gwelliant i ddarparu dull o apelio yn erbyn penderfyniad gan awdurdodau lleol y cafodd ffioedd eu hosgoi'n fwriadol drwy drosglwyddo asedau.*

**Gwenda Thomas** **294**

Section 58, page 43, line 7, leave out ‘any reference to a child who is looked after by a local authority (“a looked after child”)’ and insert ‘a reference to a child who is looked after by a local authority’.

Adran 58, tudalen 43, llinell 7, hepgorer ‘unrhyw gyfeiriad at blentyn sy’n derbyn gofal gan awdurdod lleol (“plentyn sy’n derbyn gofal”)’ a mewnosoder ‘cyfeiriad at blentyn sy’n derbyn gofal gan awdurdod lleol’.

**Gwenda Thomas** **295**

Section 58, page 43, line 12, leave out ‘93 or 94’ and insert ‘94 or (section to be inserted by amendment 361)’.

Adran 58, tudalen 43, llinell 12, hepgorer ‘93 neu 94’ a mewnosoder ‘94 neu (yr adran sy’n cael ei fewnosod gan welliant 361)’.

**Gwenda Thomas** **296**

Section 58, page 43, after line 14, insert—

‘(3) In this Part, a reference to a young person being looked after by a local authority is a reference to a young person being looked after by the authority while he or she is a child.’.

Adran 58, tudalen 43, ar ôl llinell 14, mewnosoder—

‘(3) Yn y Rhan hon, mae cyfeiriad at berson ifanc sy’n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn gyfeiriad at berson ifanc sy’n derbyn gofal gan yr awdurdod tra bo’n blentyn.’.

**William Graham** **246**

Section 60, page 44, line 11, leave out ‘may’ and insert ‘must’.

Adran 60, tudalen 44, llinell 11, hepgorer ‘caiff yr’ a mewnosoder ‘rhaid i’r’.

**Gwenda Thomas** **188**

Section 61, page 45, after line 31, insert—

‘( ) the child is not being provided with accommodation—

- (i) by a local authority, or
- (ii) in a hospital vested in the Welsh Ministers, an NHS Trust or the Secretary of State, or otherwise made available pursuant to arrangements made by a Local Health Board, an NHS Trust, the Welsh Ministers, the Secretary of State, the National Health Service Commissioning Board or a clinical commissioning group.’.

Adran 61, tudalen 45, ar ôl llinell 35, mewnosoder—

‘( ) pan nad yw’r plentyn yn cael llety a ddarperir—

- (i) gan awdurdod lleol, neu

- (ii) mewn ysbyty a freiniwyd yng Ngweinidogion Cymru, Ymddiriedolaeth GIG neu'r Ysgrifennydd Gwladol, neu sydd fel arall wedi ei roi ar gael yn unol â threfniadau a wnaed gan Fwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG, Gweinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol, Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu grŵp comisiynu clinigol'.

**Gwenda Thomas**

**189**

Section 61, page 45, leave out lines 32 to 34.

Adran 61, tudalen 45, hepgorer llinellau 36 hyd at 39.

**William Graham**

**127**

Section 62, page 46, after line 8, insert –

'(c) act in the best interests of the child.'

Adran 62, tudalen 46, ar ôl llinell 9, mewnosoder –

'(c) gweithredu er lles pennaf y plentyn.'

**Gwenda Thomas**

**435**

Section 62, page 46, line 18, leave out 'specified' and insert 'set out'.

Adran 62, tudalen 46, llinell 21, hepgorer 'bennir' a mewnosoder 'nodir'.

**Elin Jones**

**482**

Section 62, page 46, line 23, after 'background', insert 'particularly in relation to a child whose first language is Welsh'.

*An amendment relating to the promotion of Welsh language service provision.*

Adran 62, tudalen 46, llinell 25, ar ôl 'plentyn', mewnosoder 'yn enwedig mewn perthynas â phlentyn y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddo'.

*Gwelliant ynghylch hyrwyddo'r gwasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg.*

**Gwenda Thomas**

**436**

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 65, tudalen 47, llinell 12, hepgorer 'dan' a mewnosoder 'fewn'.

**Gwenda Thomas**

**190**

Section 65, page 48, line 12, leave out 'the local authority'.

Adran 65, tudalen 48, llinell 12, hepgorer 'fo'r awdurdod lleol'.



**Gwenda Thomas** **191**

Section 65, page 48, leave out line 13 and insert –

‘( ) the local authority is satisfied that C ought to be placed for adoption and proposes to place C for adoption with a particular prospective adopter (“A”),’.

Adran 65, tudalen 48, hepgorer llinell 13 a mewnosoder –

‘( ) fo’r awdurdod lleol wedi ei fodloni y dylai C gael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu ac yn bwriadu lleoli C i’w fabwysiadu gyda darpar fabwysiadydd penodol (“A”),’.

**Gwenda Thomas** **192**

Section 65, page 48, line 14, leave out ‘has decided that C ought to be placed for adoption with a person who is a local authority foster parent and has been approved as a prospective adopter’ and insert ‘an adoption agency has determined that A is suitable to adopt a child’.

Adran 65, tudalen 48, llinell 14, hepgorer ‘wedi penderfynu y dylai C gael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu gan berson sy’n rhiant maeth awdurdod lleol ac sydd wedi ei gymeradwyo fel darpar fabwysiadydd’ a mewnosoder ‘fo asiantaeth fabwysiadu wedi dyfarnu bod A yn addas i fabwysiadu plentyn’.

**Gwenda Thomas** **193**

Section 65, page 48, at the beginning of line 16, insert ‘the local authority’.

Adran 65, tudalen 48, llinell 17, hepgorer ‘heb awdurdod’ a mewnosoder ‘na fo’r awdurdod lleol wedi ei awdurdodi’.

**Gwenda Thomas** **194**

Section 65, page 48, line 17, leave out ‘the local authority foster parent mentioned in subsection (10)(b)’ and insert ‘A’.

Adran 65, tudalen 48, llinell 18, hepgorer ‘gyda rhiant maeth yr awdurdod lleol a grybwyllwyd yn is-adran (10)(b)’ a mewnosoder ‘gydag A’.

**Gwenda Thomas** **195**

Section 65, page 48, line 21, after ‘(10),’, insert ‘“adoption agency” has the meaning given by section 2 of the Adoption and Children Act 2002;’.

Adran 65, tudalen 48, llinell 23, ar ôl ‘(10),’, mewnosoder ‘mae i “asiantaeth fabwysiadu” yr ystyr a roddir i “adoption agency” gan adran 2 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002;’.

**Gwenda Thomas** **196**

Section 65, page 48, line 23, leave out ‘the Adoption and Children Act 2002’ and insert ‘that Act’.

Adran 65, tudalen 48, llinell 25, hepgorer ‘o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002’ a mewnosoder ‘o’r Ddeddf honno’.

**Gwenda Thomas** 197

Section 65, page 48, line 25, leave out 'under' at the first place where it appears.

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version

**Gwenda Thomas** 198

Section 65, page 48, line 27, leave out 'or (11)'.

Adran 65, tudalen 48, llinell 29, hepgorer 'neu (11)'.

**Gwenda Thomas** 199

Section 65, page 48, line 29, after 'parent', insert 'under subsection (5) or with a prospective adopter under subsection (11)'.

Adran 65, tudalen 48, llinell 31, ar ôl 'lleol', mewnosoder 'o dan is-adran (5) neu gyda darpar fabwysiaddd o dan is-adran (11)'.

**Gwenda Thomas** 200

Section 65, page 48, line 32, leave out subsection (14).

Adran 65, tudalen 48, llinell 34, hepgorer is-adran (14).

**Gwenda Thomas** 437

Section 67, page 49, line 23, leave out 'review' and insert 'the review and revision'.

Adran 67, tudalen 49, llinell 24, hepgorer 'adolygu'r' a mewnosoder 'adolygu a diwygio'.

**Gwenda Thomas** 438

Section 67, page 49, line 25, leave out 'or review a plan under this section at the same time as it or another body is preparing or reviewing' and insert ', review or revise a plan under this section at the same time as it or another body is preparing, reviewing or revising'.

Adran 67, tudalen 49, llinell 26, hepgorer 'neu adolygu cynllun o dan yr adran hon ar yr un adeg ag y mae ef neu gorff arall yn llunio neu yn adolygu' a mewnosoder ', adolygu neu ddiwygio cynllun o dan yr adran hon yr un pryd ag y mae ef neu gorff arall yn llunio, adolygu neu ddiwygio'.

**Gwenda Thomas** 201

Section 67, page 49, after line 32, insert—

- '(7) Any part of a plan maintained under this section which meets the requirements imposed by or under section 31A of the Children Act 1989 may be treated for the purposes of that Act as a plan prepared under section 31A of that Act.'

Adran 67, tudalen 49, ar ôl llinell 32, mewnosoder –

- (7) Caniateir i unrhyw ran o gynllun a gynhelir o dan yr adran hon sy'n bodloni'r gofynion a osodir gan neu o dan adran 31A o Ddeddf Plant 1989 gael ei thrin at ddibenion y Ddeddf honno fel cynllun a lunnir o dan adran 31A o'r Ddeddf honno.'

**Gwenda Thomas** 439

Section 68, page 50, line 1, leave out 'and review' and insert ', review or revision'.

Adran 68, tudalen 50, llinell 1, hepgorer 'ac adolygu' a mewnosoder ', adolygu neu ddiwygio'.

**Gwenda Thomas** 440

Section 68, page 50, line 3, leave out 'or reviewed' and insert ', reviewed or revised'.

Adran 68, tudalen 50, llinell 3, hepgorer 'neu eu hadolygu' a mewnosoder ', eu hadolygu neu eu diwygio'.

**Gwenda Thomas** 441

Section 68, page 50, line 5, after 'review', insert 'or revision'.

Adran 68, tudalen 50, llinell 6, ar ôl 'adolygu', mewnosoder 'neu ddiwygio'.

**Gwenda Thomas** 297

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version

Adran 68, tudalen 50, llinell 8, hepgorer 'ganiatâd' a mewnosoder 'gydsyniad'.

**Gwenda Thomas** 231

Schedule 1, page 114, after line 30, insert –

*'Service of contribution notice*

- 6 (1) A contribution notice required under this Schedule to be served on a contributor may be served on the contributor –
- (a) by being delivered personally to the contributor, or
  - (b) by being sent to the contributor –
    - (i) by a registered post service (as defined by section 125(1) of the Postal Services Act 2000), or
    - (ii) by a postal service which provides for the delivery of the document to be recorded.
- (2) For the purposes of section 7 of the Interpretation Act 1978 in its application to this paragraph, a contributor's proper address is the contributor's last known address.'

Atodlen 1, tudalen 114, ar ôl llinell 34, mewnosoder –

*‘Cyflwyno hysbysiad cyfrannu*

- 6 (1) Caniateir i hysbysiad cyfrannu y mae’n ofynnol ei gyflwyno i gyfrannwr o dan yr Atodlen hon gael ei gyflwyno i’r cyfrannwr –
- (a) drwy ei ddsbarthu’n bersonol i’r cyfrannwr, neu
  - (b) drwy ei anfon at y cyfrannwr –
    - (i) drwy wasanaeth post cofrestredig (fel y diffinnir “*registered post service*” gan adran 125(1) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000), neu
    - (ii) drwy wasanaeth post sy’n darparu i ddsbarthiad y ddogfen gael ei gofnodi.
- (2) At ddibenion adran 7 o Ddeddf Ddehongli 1978 o ran ei chymhwyso i’r paragraff hwn, cyfeiriad priodol cyfrannwr yw cyfeiriad hysbys diwethaf y cyfrannwr.’.

**Gwenda Thomas** 202

Section 76, page 51, line 24, after ‘parents’, insert ‘or prospective adopters’.

Adran 76, tudalen 51, llinell 24, ar ôl ‘lleol’, mewnosoder ‘neu ddarpar fabwysiadwyr’.

**Gwenda Thomas** 203

Section 76, page 51, line 28, after ‘parent’, insert ‘or prospective adopter’.

Adran 76, tudalen 51, llinell 28, ar ôl ‘lleol’, mewnosoder ‘neu’r darpar fabwysiadydd’.

**Elin Jones** 494

Section 76, page 51, after line 32, insert –

- ‘( ) for securing that a child is placed with a foster parent whose first language is the same as the language of choice of the child particularly where the child’s language of choice is Welsh.’.

*An amendment relating to the promotion of welsh language service provision.*

Adran 76, tudalen 51, ar ôl llinell 32, mewnosoder –

- ‘( ) i sicrhau bod plentyn yn cael ei leoli gyda rhiant maeth sydd â’r un iaith gyntaf â dewis iaith y plentyn, yn enwedig os mai Cymraeg yw dewis iaith y plentyn.’.

*Gwelliant ynghylch hyrwyddo’r gwasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg.*

**Gwenda Thomas** 204

Section 76, page 51, line 33, after ‘parents’, insert ‘or prospective adopters’.

Adran 76, tudalen 51, llinell 33, ar ôl ‘lleol’, mewnosoder ‘neu ddarpar fabwysiadwyr’.

**Gwenda Thomas** **205**

Section 76, page 51, after line 36, insert –

‘In this section “prospective adopter” means a person with whom a child is placed under section 65(11).’.

Adran 76, tudalen 51, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

‘Yn yr adran hon ystyr “darpar fabwysiaddd” yw person y lleolir y plentyn gydag ef o dan adran 65(11).’.

**Gwenda Thomas** **143**

Section 77, page 52, line 34, leave out ‘directions’ and insert ‘direction’.

Adran 77, tudalen 52, llinell 34, hepgorer ‘gyfarwyddiadau’ a mewnosoder ‘gyfarwyddyd’.

**Gwenda Thomas** **442**

Section 77, page 52, line 34, leave out ‘them’ and insert ‘the Welsh Ministers’.

